

Ymgynghoriad: Adolygiad interim o'r cap Ail Ddosbarth


Fersiwn nad yw'n gyfrinachol

Ymgynghoriad

Cyhoeddwyd ar 16 Hydref 2026

Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion: 27 Tachwedd 2026

I gael rhagor o wybodaeth am y cyhoeddiad hwn, ewch i [ofcom.org.uk](https://www.ofcom.org.uk)



Cynnwys

Adran

1. Trosolwg	3
2. Cefndir	5
3. Dull gweithredu o ran y cap prisiau ar lythyrau Ail Ddosbarth	23

Atodiad

A1. Hysbysiad Statudol	31
A2. Fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol	34
A3. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn	40
A4. Egwyddorion ymgynghori Ofcom	42
A5. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad	43
A6. Cwestiynau'r ymgynghoriad	44

1. Trosolwg

- 1.1 Mae'r ddogfen hon yn nodi cynnig ymgynghoriad Ofcom i ymestyn y cap prisiau manwerthu presennol ar lythyrau Ail Ddosbarth ar ei lefel bresennol am flwyddyn, hyd at 31 Mawrth 2028. Mae hyn yn golygu na fyddai'r uchafswm pris ar draws y fasged o gynhyrchion hyn yn codi'n gyflymach na chwyddiant, fel y mesurir gan y CPI.¹ Rydym yn cynnig y dull hwn tra bo Royal Mail yn gweithredu diwygiadau i'r gwasanaeth cyffredinol (yn dilyn ein newidiadau rheoleiddiol ym mis Gorffennaf 2025) a'i gynllun i wella ansawdd y gwasanaeth. Gyda'i gilydd, dylai'r rhain gael effaith sylweddol ar berfformiad ariannol a pherfformiad gwasanaeth Royal Mail. Mae'r rhain yn hanfodol er mwyn sefydlu sail dystiolaeth sy'n ddigon sicr i lywio penderfyniadau ynghylch y dull prisio hirdymor.
- 1.2 Ofcom sy'n gyfrifol am sicrhau bod y gwasanaeth post cyffredinol, a ddarperir gan y Post Brenhinol, yn gynaliadwy ac yn fforddiadwy. Ofcom sy'n gosod targedau ansawdd gwasanaeth fel rhan o'r gwasanaeth cyffredinol ac yn monitro perfformiad yn erbyn y targedau hynny, ac mae'n cymryd camau gorfodi yn erbyn y Post Brenhinol pan fydd ansawdd ei wasanaeth yn is na'r gofynion.² Mae'r gostyngiad sylweddol yn nifer y llythyrau wedi lleihau'r arbedion maint o ran danfon llythyrau. Mae hyn wedi arwain at gynydd mewn cost fesul uned ac wedi gwanhau sefyllfa ariannol y Post Brenhinol dros y blynyddoedd diwethaf, ac felly mae'n bygwth cynaliadwyedd y gwasanaeth post cyffredinol. Mae sefyllfa ariannol y Post Brenhinol yn golygu bod rhywfaint o densiwn rhwng yr angen i'r gwasanaeth cyffredinol fod yn gynaliadwy, gan sicrhau ei fod yn parhau i fod yn fforddiadwy a gwella ansawdd y gwasanaeth.
- 1.3 Rydym wedi defnyddio ein holl bwerau i foderneiddio rhwymedigaethau rheoleiddiol y Post Brenhinol. Mae hyn wedi galluogi'r Post Brenhinol i ymateb i'r gostyngiad parhaus yn nifer y llythyrau ac mae'n sicrhau bod y gwasanaeth cyffredinol yn dal yn addas i'r diben, gan gydnabod bod y ffordd mae pobl yn defnyddio'r gwasanaeth wedi newid yn sylfaenol.³ Fe wnaethom osod y cap diogelu presennol ym mis Ionawr 2024 a dechrau gwaith ehangach ar ddyfodol y gwasanaeth cyffredinol a phrisiau'r gwasanaeth post.⁴ Fe wnaethom gyflwyno diwygiadau mawr a roddodd fwy o hyblygrwydd i'r Post Brenhinol o ran sut mae'n danfon llythyrau Ail Ddosbarth.⁵ Daeth y diwygiadau hyn i rym ar 28 Gorffennaf 2025.
- 1.4 Dechreuodd y Post Brenhinol ddefnyddio'r model gweithredol newydd ym mis Mehefin 2026 ar ôl dod i gytundeb ag Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu (CWU) ym mis Ebrill 2026. Erbyn hyn, mae'r Post Brenhinol wrthi'n cyflwyno'r model newydd ar draws pob un o'i swyddfeydd danfon ac yn cyflawni ei gynllun gwella ansawdd gwasanaeth.⁶ Disgwylir i'r newidiadau hynny helpu i wella costau, sefyllfa ariannol a pherfformiad gwasanaeth y Post Brenhinol, ond mae graddau eu heffeithiau'n aneglur o hyd. Mae angen i'r Post Brenhinol

¹ Mae'r CPI neu Fynegai Prisiau Defnyddwyr yn un ffordd o fesur chwyddiant, sef y gyfradd y mae prisiau nwyddau a gwasanaethau yn newid dros amser.

² Rydym wedi gosod targedau perfformiad clir ac wedi cymryd camau yn erbyn y Post Brenhinol pan fydd y rhain wedi cael eu methu - gosodwyd dirwy o fwy na £37 miliwn ar y cwmni dros y blynyddoedd diwethaf.

³ Ofcom, 2024. [Cais am fewnbwn: Dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol.](#)

⁴ Ofcom, 2024. [Datganiad: Adolygiad o gapiau diogelu Ail Ddosbarth 2024.](#)

⁵ Ofcom, 2025. [Datganiad: Adolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol a rheoleiddio'r gwasanaeth post.](#)

⁶ Rydym yn deall y gallai'r broses gyflwyno gael ei gohirio dros dro yn dilyn cyhoeddiad gan yr Undeb Gweithwyr Cyfathrebu (CWU) ar 9 Hydref 2026.

wneud mwy o gynnydd mewn perthynas â'r newidiadau sylweddol hyn cyn y gwelwn sylfaen dystiolaeth ddigon clir i seilio ein dull gweithredu hirdymor arni. Felly, rydym yn cynnig parhau â'n cap prisiau presennol ar llythyrau Ail Ddosbarth am flwyddyn, tan fis Mawrth 2028, fel ateb tymor byr.

- 1.5 O dan ein dull arfaethedig, byddem yn ymestyn y cap ar ei lefel bresennol am flwyddyn arall ar ôl iddo ddod i ben ym mis Mawrth 2027. Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw pennu dull hirdymor, o ystyried y pwysau sy'n wynebu cynaliadwyedd y gwasanaeth cyffredinol. Rydym yn bwriadu ymgynghori ar ddull hirdymor o ran y gwasanaeth cyffredinol a phrisio mynediad yn Ch1 2027/28, a chyhoeddi penderfyniad yn Ch3 2027/28. Bydd y gwaith hwn yn adeiladu ar ein Galwad am Dystiolaeth (CFI) ar brisio a fforddiadwyedd yn 2025, yn ogystal â'r mewnbwn a gawsom gan randdeiliaid mewn ymateb iddi ac yn ystod y cyfnod wedyn.
- 1.6 Cyd-destun y gwaith hwnnw fydd yr her barhaus i sicrhau bod y gwasanaeth cyffredinol yn gynaliadwy wrth wynebu'r gostyngiad yn nifer y llythyrau. Mae hyn yn debygol o olygu y bydd angen i brisiau llythyrau godi dros amser i gefnogi gwasanaeth cyffredinol sy'n gynaliadwy'n ariannol, fel y mae prisiau mewn gwledydd eraill. Mae prisiau llythyrau yn y DU yn dal yn isel o'u cymharu â gwledydd eraill: o ran gwasanaethau nad ydynt yn flaenoriaeth sy'n weddol debyg, roedd y DU ymhlith yr isaf yn Ewrop. Mae stamp llythyr Ail Ddosbarth yn y DU yn costio 91c heddiw. O gymharu â'r cynhyrchion cyfatebol agosaf y gallwn eu nodi, mae hynny'n llai na hanner cyfartaledd (£2.07) gwledydd Ewrop ac oddeutu hanner eu canolrif (£1.81).⁷
- 1.7 Mae gwariant pobl ar wasanaethau post yn parhau i fod yn isel mewn termau absoliwt ac yn cynrychioli cyfran fach iawn o incwm y rhan fwyaf o bobl. Yn 2023/24, gwariodd yr aelwyd gyfartalog tua £2.60 y mis ar wasanaethau post (sy'n cyfateb i £0.60 yr wythnos).⁸
- 1.8 Mae'n dal yn bwysig sicrhau bod modd fforddiadwy i bobl gael gafael ar y gwasanaeth post. Er ein bod wedi canfod yn gyson nad yw'r rhan fwyaf o bobl yn wynebu heriau fforddiadwyedd wrth anfon post, rydym hefyd yn cydnabod y gallai cyfran fach o bobl fod yn fwy tebygol o wynebu problemau fforddiadwyedd, gyda'r rhai ar incwm is yn fwy tebygol o fod yn agored i niwed mewn perthynas â phrisiau postio uwch.⁹ Felly, rydym yn parhau i fod o'r farn y byddai rhoi dulliau mwy targedig ar waith i fynd i'r afael â fforddiadwyedd yn cael effaith sylweddol ar ein dull rheoleiddio, ac rydym yn croesawu'r ffaith bod Royal Mail yn parhau i ystyried cynllun disgownt wedi'i dargedu.

Crynodeb byr ar lefel uchel yn unig yw'r adran drosolwg yn y ddogfen hon. Mae'r cynigion rydym yn ymgynghori yn eu cylch a'n rhesymeg wedi'u nodi yn y ddogfen lawn.

⁷ Mae'r grŵp cymharu yn cynnwys aelod-wladwriaethau'r UE, yn ogystal â Norwy, y Swistir a'r DU.

⁸ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), 2025. [Gwariant teuluoedd yn y DU: Ebrill 2023 i Fawrth 2024](#). Nodwn mai data 2023/24 yw'r data diweddaraf gan yr ONS lle mae data cyson ar gael ar gyfer gwariant ac incwm. Byddwn yn diweddarau hyn pan fydd data 2024/25 ar gael.

⁹ Ofcom, 2024. [Datganiad: Adolygiad o'r cap diogelu ar gyfer post Ail Ddosbarth](#), tt. 85-86; Ofcom, 2025. [Galwad am Dystiolaeth: Adolygiad o reoleiddio gwasanaethau post - prisio a fforddiadwyedd](#), tt. 25-26.

2. Cefndir

Mae'r adran hon yn nodi'r cyd-destun ar gyfer yr ymgynghoriad. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- ein dyletswyddau cyfreithiol i sicrhau gwasanaeth post cyffredinol sy'n fforddiadwy, yn gynaliadwy'n ariannol ac yn effeithlon,
- y pwysau parhaus ar y gwasanaeth post cyffredinol a heriau ariannol y Post Brenhinol a pherfformiad ansawdd gwasanaeth gwael
- ein dull o brisio gwasanaethau gwasanaeth cyffredinol ers i Ofcom ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros reoleiddio gwasanaethau post a'r diwygiadau diweddar i'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol (USO),
- pryderon rhanddeiliaid wrth i ni osod rheoliadau ar gyfer rheoli prisiau hirdymor tra bo ansicrwydd ynghylch a fydd diwygiadau'r USO yn cael eu rhoi ar waith, a phryd, a pha effaith y gallent ei chael ar y Post Brenhinol,¹⁰ a
- y ffactorau sy'n effeithio ar ein gallu i asesu ein dull prasio, yn enwedig effaith diwygio'r USO a lefelau ansawdd gwasanaeth.

Pwerau a dyletswyddau cyfreithiol Ofcom

- 2.1 Fel rheoleiddiwr cyfathrebiadau'r DU, prif ddyletswydd Ofcom yw hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr.¹¹ Mae ein fframwaith rheoleiddio ar gyfer gwasanaethau post wedi'i nodi mewn dau statud: Deddf Gwasanaethau Post 2011 (PSA 2011) a Deddf Cyfathrebiadau 2003 (CA 2003).
- 2.2 Mae dyletswydd ar Ofcom i sicrhau y darperir gwasanaeth post cyffredinol – y gwasanaeth post sylfaenol y gall pawb yn y wlad ddibynnu arno. Wrth wneud hyn, rhaid i ni ystyried yr angen i'r gwasanaeth post cyffredinol fod yn gynaliadwy yn ariannol ac yn effeithlon cyn diwedd cyfnod rhesymol a pharhau i fod yn effeithlon ar bob adeg ddilynol.¹²¹³ Mae'r angen i fod yn gynaliadwy yn ariannol yn cynnwys yr angen am gyfradd enillion masnachol rhesymol i unrhyw ddarparwr gwasanaeth cyffredinol ar unrhyw wariant a wyneb ir ganddo at ddibenion darparu gwasanaeth post cyffredinol, neu mewn cysylltiad â hynny.¹⁴
- 2.3 Mae Deddf Gwasanaethau Post 2011 yn sefydlu'r fframwaith ar gyfer y gwasanaeth post cyffredinol yn y DU. Y model presennol ar gyfer sicrhau gwasanaeth cyffredinol yn y DU yw mynnu bod cwmni masnachol yn darparu'r gwasanaethau cyffredinol penodol ochr yn ochr â gwasanaethau eraill, gan gynnwys post swmp manwerthu a chyfanwerthu a gwasanaethau parseli eraill, gan ddefnyddio rhwydwaith sy'n gyffredin i raddau helaeth. Mae'r gwasanaeth cyffredinol yn cael ei ddarparu gan y Post Brenhinol fel y darparwr gwasanaeth cyffredinol dynodedig (DUSP) presennol. Cwmni preifat yw'r Post Brenhinol ac yn ychwanegol at ei fuddiannau masnachol, mae'n rhaid iddo, fel darparwr gwasanaeth cyffredinol, ddarparu amrywiaeth penodol o wasanaethau post i gartrefi ac i fusnesau am brisiau sy'n fforddiadwy ac yn unffurf yn ddaearyddol ledled y DU.¹⁵

¹⁰ Gweler paragraffau 2.37 – 2.39 isod.

¹¹ Adran 3 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

¹² Diffinnir "cyfnod rhesymol" yn adran 29(5) o Ddeddf Gwasanaethau Post 2011 fel cyfnod sy'n dechrau ar y diwrnod y daw darpariaethau perthnasol y ddeddf honno i rym yn gyffredinol, y mae Ofcom o'r farn, o dan yr holl amgylchiadau, ei fod yn rhesymol.

¹³ Adran 29(3) o Ddeddf Gwasanaethau Post 2011.

¹⁴ Adran 29(4) o Ddeddf Gwasanaethau Post 2011.

¹⁵ Y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol (USO) yw'r enw ar y gofyniad hwn.

- 2.4 Mae Ofcom yn gyfrifol am ddiffinio, drwy orchymyn, cwrpas y gwasanaethau sy'n llunio'r USO. Mae Ofcom yn gosod amodau ar y Post Brenhinol drwy gyfeirio at y gorchymyn, gan gynnwys gofynion sy'n ymwneud â darparu cynnyrch gwasanaeth cyffredinol a'u perfformiad. Mae'r amodau hyn yn cynnwys, ymysg pethau eraill, ansawdd gwasanaeth a safonau gweithredu.
- 2.5 Nid oes gan Ofcom rôl yn strategaeth fasnachol Royal Mail nac yng ngweithrediad dydd i ddydd ei fusnes. Ein rôl ni yw gosod y fframwaith rheoleiddio, monitro canlyniadau, a gweithredu pan fo angen i sicrhau cydymffurfiaeth.
- 2.6 Mae Ofcom wedi gosod amod sy'n rhoi cap diogelu ar brisiau llythyrau Ail Ddosbarth ac mae ganddo bŵer i gyfarwyddo'r Post Brenhinol mewn perthynas â'r materion a nodir yn yr amod. Mae'r pŵer hwn yn ymestyn i roi cyfarwyddiadau mewn perthynas â'r prisiau uchaf y gall y Post Brenhinol eu codi am lythyrau mawr a safonol Ail Ddosbarth mewn unrhyw gyfnod ar ôl i'r cap diogelu tair blynedd a osodwyd gennym yn 2024 ddod i ben.
- 2.7 Mae gwybodaeth fanwl am ein pwerau a'n dyletswyddau mewn perthynas â gwasanaethau post, ein dyletswydd twf economaidd, dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus a dyletswydd yr iaith Gymraeg ar gael yn Atodiad A2.

Diogelu mynediad hirdymor pobl at wasanaeth post fforddiadwy a dibynadwy

- 2.8 Mae'r is-adran hon yn nodi pam fod yn rhaid sicrhau bod yr USO yn parhau i fod yn gynaliadwy'n ariannol er mwyn diogelu mynediad hirdymor pobl at wasanaeth post fforddiadwy a dibynadwy. Mae'n egluro pam mae angen newid i ddiogelu'r USO yn y tymor hir a sut rydym eisoes wedi gwneud newidiadau sylweddol a blaengar i ofynion yr USO. Mae hefyd yn crynhoi sut rydym wedi mynd ati i brisio gwasanaethau'r USO ers 2012.

Mae gostyngiad yn nifer y llythyrau yn effeithio ar economeg y gwasanaeth cyffredinol

- 2.9 Mae gwasanaethau post yn dal yn adnodd cyfathrebu hanfodol i lawer o bobl a busnesau. Fodd bynnag, mae'r farchnad llythyrau yn dirywio'n strwythurol, gyda newidiadau yn ymddygiad defnyddwyr yn arwain at ostyngiad o un flwyddyn i'r llall yn nifer y llythyrau ond gyda thwf parhaus yn nifer y parseli sy'n cael eu hanfon.
- 2.10 Nid tueddiadau dros dro yw'r rhain yn y farchnad llythyrau; maent yn adlewyrchu newid sylfaenol a pharhaol yn y ffordd mae pobl a busnesau'n cyfathrebu, sy'n cael ei sbarduno gan bobl yn mabwysiadu cysylltedd band eang a symudol yn eang ac yn symud i ddewisiadau digidol amgen ar gyfer yr ohebiaeth a anfonwyd drwy'r post yn flaenorol.
- 2.11 Ers 2011/12 mae nifer y llythyrau sy'n cael eu hanfon wedi haneru ac yn parhau i ostwng, o tua 14 biliwn i tua 6.5 biliwn yn 2024/25.¹⁶ Fodd bynnag, mae nifer y cyfeiriadau yn y DU y mae'n rhaid i'r Post Brenhinol ddanfôn iddynt wedi cynyddu i dros 32 miliwn. Wrth ddanfôn llythyrau, mae cost gyffredinol danfon un llythyr i dŷ a danfon pum llythyr i'r un tŷ, ar yr un rownd ddanfôn, bron yr un fath. Felly, wrth i nifer y llythyrau barhau i ostwng, ac wrth i nifer y pwyntiau danfon gynyddu, mae cost fesul uned danfon y llythyrau hyn wedi cynyddu. Gwnaethom egluro'r ddeinameg hon yn fanylach yn Adran 4 ein Datganiad Gwasanaeth Cyffredinol 2025.^{17 18}

¹⁶ Bydd data wedi'i ddiweddararu ar gyfer 2025/26 ar y farchnad bost yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan ar 27 Hydref 2026.

¹⁷ Ofcom, 2025. [Datganiad: Adolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol a rheoleiddio'r gwasanaeth post](#), adran 4.

¹⁸ Ofcom, 2025. [Galwad am Dystiolaeth: Adolygiad o reoleiddio gwasanaethau post – prisiau a fforddiadwyedd](#), t.9.

- 2.12 Mae'r ddeinameg hon yn her sylweddol i economeg y gwasanaeth cyffredinol. Mae'r effaith yn amlwg wrth edrych ar sefyllfa ariannol y Post Brenhinol. Mae'r cwmni wedi bod yn adrodd ynghylch colledion sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae hynny'n rhoi cynaliadwyedd y gwasanaeth cyffredinol mewn perygl.¹⁹ Mae'r cyd-destun heriol hwn yn golygu bod perfformiad ariannol y Post Brenhinol wedi bod yn wan ers rhai blynyddoedd, gan weithredu o dan y lefel sy'n debygol o fod yn gyson â chynaliadwyedd ariannol hirdymor yn ein barn ni.
- 2.13 Mae cynaliadwyedd ariannol yn hanfodol er mwyn sicrhau canlyniadau da i ddefnyddwyr mewn cysylltiad â'r post. Ni fydd darparwr gwasanaeth nad yw'n gynaliadwy'n ariannol yn gallu buddsoddi'n ddigonol yn ei rwydwaith, cynnal lefelau staffio priodol, na darparu gwasanaethau i'r ansawdd gofynnol, nac, o bosibl, gweithredu o gwbl. Yn yr amgylchiadau hynny, mae'n anochel y byddai dirywiad o ran y canlyniadau i ddefnyddwyr.
- 2.14 Nid yw profiad y DU yn unigryw. Mae gwledydd ledled y byd yn wynebu heriau tebyg ac wrthi'n penderfynu sut i gydbwysu'r angen i gynnal gwasanaethau hanfodol a fforddiadwy â realiti marchnad sy'n newid. Mae gwledydd eraill wedi cymryd camau i addasu eu gwasanaeth cyffredinol drwy newidiadau deddfwriaethol neu reoleiddiol i strwythur y gwasanaeth cyffredinol, gan gynnwys cefnogi ei ddarpariaeth barhaus drwy gymhorthdal cyhoeddus. Mewn llawer o achosion, mae'r darparwr gwasanaeth cyffredinol naill ai'n eiddo i'r llywodraeth yn rhannol neu'n gyfan gwbl. Nid dyma'r fframwaith sy'n bodoli yn y DU. Deddf Gwasanaethau Post 2011 sy'n pennu agweddau sylfaenol y gwasanaeth cyffredinol. Y Post Brenhinol, cwmni preifat, sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth cyffredinol, ochr yn ochr â'i wasanaethau masnachol eraill, heb gymhorthdal uniongyrchol gan y wladwriaeth.

Rhaid i'r gwasanaeth cyffredinol esblygu

- 2.15 Mewn ymateb i'r newidiadau strwythurol hyn, lansiodd Ofcom sgwrs genedlaethol yn 2024 ar y ffordd orau o ddiogelu'r gwasanaeth post cyffredinol ar gyfer y dyfodol. Cyflwynodd yr ymgynghoriad dystiolaeth a oedd yn awgrymu bod angen i'r gwasanaeth cyffredinol newid er mwyn cyd-fynd yn well ag anghenion defnyddwyr y post a sicrhau y gall barhau i fod yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy yn y dyfodol.²⁰
- 2.16 Ym mis Gorffennaf 2025, fe wnaethom newidiadau sylweddol a blaengar i ofynion yr USO yn dilyn asesiad cynhwysfawr o anghenion defnyddwyr y post, wedi'i ategu gan ymchwil defnyddwyr helaeth ac ymgysylltu â busnesau, cyfranogwyr diwydiant a rhanddeiliaid eraill.^{21 22}
- 2.17 Roedd y diwygiadau'n cyflwyno mwy o hyblygrwydd wrth ddanfôn llythyrau Ail Ddosbarth, gan alluogi'r Post Brenhinol i ddanfôn llythyrau Ail Ddosbarth bob yn ail diwrnod yn ystod y wythnos ac nid ar ddydd Sadwrn. Nod diwygiadau o'r fath oedd diogelu'r hyn sydd bwysicaf

¹⁹ [Gweler Datganiadau Ariannol Rheoleiddiol y Post Brenhinol 2025-26, tudalen 3](#): Dim ond 5% o elw mae'r rhan o'r busnes sy'n cefnogi'r gwasanaeth cyffredinol wedi'i wneud mewn dwy flynedd ers preifateiddio yn 2013. Credwn mai dyma'r lefel sy'n dangos bod y gwasanaeth yn gynaliadwy yn ariannol yn y tymor hir. Cyrhaeddwyd y lefel honno ddiwethaf yn 2015/16 – tua deng mlynedd yn ôl.

²⁰ Ofcom, 2024. [Cais am fewnbwn: Dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol](#).

²¹ Ofcom, 2025. [Ymgynghoriad: Adolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol a rheoleiddio'r gwasanaeth post](#).

²² Ofcom, 2025. [Datganiad: Adolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol a rheoleiddio'r gwasanaeth post](#).

i ddefnyddwyr ar yr un pryd â chydabod na allai'r gwasanaeth cyffredinol barhau heb ei newid yng nghyd-destun marchnad llythyrau sy'n dirywio'n strwythurol.²³

- 2.18 Y diwygiad hwn oedd y newid mwyaf sylweddol i'r gwasanaeth cyffredinol ers degawd neu fwy ac fe alluogodd y Post Brenhinol i wneud newid strwythurol i'w weithrediadau danfon gyda'r nod o helpu cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol a gwella ansawdd a dibynadwyedd y gwasanaeth. Fe wnaethom amcangyfrif y gellid arbed rhwng £250m a £425m ond nodwyd, yn ymarferol, y byddai maint yr arbedion net gwirioneddol yn dibynnu ar lwyddiant y Post Brenhinol o ran rhoi'r newidiadau gweithredol angenrheidiol ar waith.²⁴
- 2.19 Mae'r arbedion net posibl hyn yn sylweddol, a fyddai, pe baent yn cael eu gwireddu, yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol ac felly'n cefnogi ei ddarpariaeth barhaus. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod, er ei fod yn sylweddol, na fyddai'r diwygiad hwn ynddo'i hun yn ddigon i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r Post Brenhinol na chynaliadwyedd tymor hwy'r gwasanaeth cyffredinol. Roeddem yn glir y byddai angen i Royal Mail drawsnewid ei rwydwaith a'i weithrediadau hefyd, yn ogystal â sicrhau twf drwy ei wasanaethau parseli. Fel y nodwyd uchod, cyfrifoldeb Royal Mail, ac nid Ofcom, yw rhedeg ei fusnes a datblygu a rhoi ar waith strategaeth fasnachol lwyddiannus.

Prisiau gwasanaethau cyffredinol

Ein dull o reoleiddio prisiau ers 2012

- 2.20 Wrth ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros reoleiddio'r gwasanaeth post yn 2012, fe wnaethom nodi nad oedd rheolaethau pris helaeth o dan y drefn reoleiddiol flaenorol (i) wedi bod yn effeithiol o ran sicrhau bod y Post Brenhinol yn gwella ei effeithlonrwydd; (ii) nad oedd yn diogelu defnyddwyr y post rhag cynnydd mewn prisiau; ac (iii) roedd wedi arwain at sefyllfa lle'r oedd y gwasanaeth cyffredinol yn dod yn anghynaliadwy.^{25 26}
- 2.21 Fe wnaethom benderfynu rhoi digon o hyblygrwydd prisio i'r Post Brenhinol barhau i ddarparu gwasanaethau'n gynaliadwy a rhoi cap diogelu Ail Ddosbarth ar waith gyda'r nod o sicrhau bod cynnyrch gwasanaeth cyffredinol fforddiadwy sylfaenol ar gael i bawb. Fe wnaethom osod y cap yn sylweddol uwch na lefel y pris, felly roedd yn diogelu fforddiadwyedd ond yn dal i roi digon o ryddid prisio i'r Post Brenhinol. Roeddem o'r farn bod gan y Post Brenhinol gymhelliant masnachol i sicrhau nad oedd y cynnydd mewn prisiau yn peri i'r farchnad ddirywio'n gyflymach o lawer a bygwth hyfywedd y gwasanaeth cyffredinol.^{27 28}

²³ Roedd ein diwygiadau'n cadw nodweddion y gwasanaeth cyffredinol a bennwyd gan ddeddfwriaeth 'mae un pris yn mynd i unrhyw le' ledled y DU a gwasanaeth chwe diwrnod yr wythnos.

²⁴ Ofcom, 2025. [Datganiad: Adolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol a rheoleiddio'r gwasanaeth post.](#)

²⁵ Rhoddodd Postcomm gyfres o reolaethau prisiau ar waith ar wahanol fasgedi o wasanaethau post ar sail RPI - X gydag addasiadau pellach i adlewyrchu gostyngiadau strwythurol mewn niferoedd, tan-adennill costau a chostau sy'n gysylltiedig â mynediad (lle bo hynny'n berthnasol) yn adolygiad 2010. Roedd y basgedi'n cynnwys Basged A (a oedd yn cynnwys gwasanaethau ar gyfer defnyddwyr preswyl domestig nad oedd ganddynt ddewis arall yn lle'r Post Brenhinol), Basged B (a oedd yn cynnwys yr un peth ar gyfer defnyddwyr busnes) a Basged C (a oedd yn cynnwys gwasanaethau cyfanwerthol). Roedd y basgedi hyn hefyd yn rhwym wrth reolau ychwanegol fel is-gap a oedd yn berthnasol i wasanaethau penodol mewn basgedi a chap cyfanswm refeniw ar gyfer Basged A a B. Postcomm, 2010. [Laying the foundations for a sustainable postal service.](#)

²⁶ Ofcom, 2012. [Sicrhau'r Gwasanaeth Post Cyffredinol](#), t.4.

²⁷ Ofcom, 2012. Datganiad: [Sicrhau'r Gwasanaeth Post Cyffredinol](#), tt.3-5.

²⁸ Roeddem wedi gosod y cap hwn ar 55c, a oedd yn cynrychioli 53% o gynnydd ar bris stamp ar y pryd, sef 36c (prisiau 2011-12). Roedd y cap hwn yn berthnasol am saith mlynedd ac yn destun mynegeo ar y CPI.

- 2.22 Rydym wedi peidio â gosod cap yn gyson ar lythyrau mawr a safonol Dosbarth Cyntaf. Er bod cyfyngiadau cystadleuol yr un mor gyfyngedig ar gyfer y rhain, nid oeddem yn credu bod pryderon sylweddol ynghylch fforddiadwyedd wedi codi mewn perthynas â gwasanaethau Dosbarth Cyntaf. Mae'r gwasanaeth Dosbarth Cyntaf yn wasanaeth premiwm, cyflymach sydd wedi'i gynllunio ar gyfer achlysuron llai aml lle bydd defnyddwyr yn dewis talu mwy am ddanfoni llythyrau yn gynt. Ar gyfer y rhan fwyaf o anghenion postio, mae'r gwasanaeth Ail Ddosbarth yn ddewis addas am bris is.²⁹ Nod y dull hwn oedd sicrhau hyblygrwydd masnachol y Post Brenhinol ar yr un pryd â sicrhau bod gwasanaeth cyffredinol sylfaenol yn dal yn fforddiadwy i bawb.
- 2.23 Rydym wedi cynnal y dull rheoleiddio cyffredinol hwn yn fras mewn adolygiadau dilynol gan ein bod o'r farn mai dyma'r ffordd orau o gyflawni ein hamcanion cyffredinol:
- 2.24 Yn ein Hadolygiad o Reoliadau'r Gwasanaeth Post yn 2022, fe wnaethom ddweud na fyddai gweithredu rheolaethau prisiau, na gosod targedau effeithlonrwydd, yn arwain at ganlyniadau gwell. Roedd hyn yn bennaf am yr un rhesymau ag yn 2012 ac yn y cyd-destun lle'r oedd y gostyngiad pellach mewn niferoedd llythyrau yn gwneud yr heriau cynaliadwyedd yn fwy. Fe wnaethom hefyd egluro ein bod yn credu y byddai hyblygrwydd masnachol yn creu cymhellion effeithlonrwydd cryfach ac y gallai gosod targedau effeithlonrwydd neu reolaethau prisiau arwain at ganlyniadau anfwriadol.³⁰
- 2.25 Yn ein Hadolygiad yn 2024 roeddem wedi tynnu parseli Ail Ddosbarth o'r cap diogelu gan fod cystadleuaeth yn cyfyngu ar brisiau (ac roedd prisiau'r Post Brenhinol yn is o lawer na'r cap) ac felly'n sicrhau eu bod yn dal yn fforddiadwy. Fodd bynnag, fe wnaethom gadw cap diogelu ar wasanaethau llythyrau Ail Ddosbarth y Post Brenhinol oherwydd cyfyngiadau cystadleuol cyfyngedig ar brisiau llythyrau mawr a safonol Ail Ddosbarth y Post Brenhinol.³¹ Fel rhan o'n hasesiad o fforddiadwyedd bryd hynny, fe wnaethom ystyried nad yw'r rhan fwyaf o bobl yn dioddef niwed sylweddol o ganlyniad i brisiau postio, er bod tystiolaeth y gallai rhai grwpiau agored i niwed wynebu heriau o ran fforddiadwyedd.³² O ystyried hyn, ers 2024 rydym wedi bod yn ymgysylltu â'r Post Brenhinol ynglŷn ag archwilio cynllun disgownt wedi'i dargedu ar gyfer cwsmeriaid agored i niwed.³³
- 2.26 Roedd cap 2024 wedi gosod cap diogelu basged ar brisiau llythyrau mawr a safonol gyda stamp Ail Ddosbarth y Post Brenhinol arnynt fel nad yw'r pris uchaf ar draws y fasged o lythyrau safonol a mawr yn gallu codi'n gyflymach na chwyddiant, fel y mesurir gan y CPI.³⁴ Roedd hyd gwreiddiol y cap diogelu 2024 yn fyrrach na'r amserlen a fabwysiadwyd yn flaenorol (tair blynedd yn hytrach na phum mlynedd). Ymateb i dystiolaeth a gyflwynwyd ar y pryd oedd hyn a oedd yn awgrymu y gallai cap, o flwyddyn ariannol 2027-28, ddechrau effeithio'n sylweddol ar hyblygrwydd masnachol y Post Brenhinol ar gyfer gwasanaethau eraill ac, yn ei dro, ar reffeniw a phroffidioldeb y Post Brenhinol.³⁵

²⁹ Rydym yn ymwybodol, o'n hymchwil ansoddol yn 2025, fod rhai defnyddwyr yn dibynnu'n benodol ar y gwasanaeth Dosbarth Cyntaf. Er enghraifft, cleifion PKU sy'n gorfod defnyddio'r gwasanaeth Dosbarth Cyntaf yn rheolaidd i anfon samplau brys i'w profi, gyda'r GIG ond yn ariannu costau postio mewn rhai codau post. Jigsaw, 2025. [Post affordability: benefits recipients' perspective on a potential targeted discount scheme.](#)

³⁰ Ofcom, 2022. [Adolygu Rheoliadau'r Gwasanaeth Post 2022](#), tt.55-56.

³¹ Ofcom, 2024. [Datganiad: Adolygiad o gap diogelu Ail Ddosbarth](#), t.100.

³² Ofcom, 2024. [Datganiad: Adolygiad o gap diogelu Ail Ddosbarth](#), tt.85-86.

³³ Ofcom, 2024. [Datganiad: Adolygiad o gap diogelu Ail Ddosbarth](#), tt.3-4 a 100.

³⁴ Mae strwythur basged yn fodd o reoli prisiau sy'n caniatáu i brisiau rhai cynnyrch gynyddu mwy na chwyddiant, os bydd prisiau eraill yn cael eu codi llai na chwyddiant. Mae Amod 3 y DUSP yn nodi'r uchafswm y gall y Post Brenhinol ei godi am wasanaethau yn y fasged.

³⁵ Roedd tystiolaeth gan y Post Brenhinol yn awgrymu y byddai'r cap yn dechrau cyfyngu ar reffeniw gwasanaethau post swmp nad ydynt yn rhai USO, gan fod y Post Brenhinol yn bwriadu cynyddu pris y cynnyrch

Prisiau llythyrau Ail Ddosbarth ers 2012

- 2.27 Roedd y cap diogelu ar brisiau llythyrau Ail Ddosbarth pan gafodd ei osod am y tro cyntaf yn uwch o lawer na gwir bris llythyrau, a hynny'n fwriadol. Y bwriad oedd iddo fod yn gap diogelu yn hytrach na rhwymo ar godi prisiau. Dros amser, mae'r cap wedi cynyddu yn ôl y CPI ond hefyd drwy gynnydd termau real i sicrhau na fyddai'r cap yn rhwymo, neu i sicrhau mwy o hyblygrwydd prasio i'r Post Brenhinol.³⁶ Roedd y penderfyniadau hyn yn adlewyrchu ein hasesiad na fyddai cynnydd bach mewn termau real yn gwneud cynnyrch Ail Ddosbarth yn anfforddiadwy, gan barhau i ddiogelu defnyddwyr rhag cynnydd gormodol mewn prisiau a chynnal lefel resymol o hyblygrwydd masnachol i'r Post Brenhinol.
- 2.28 Fodd bynnag, dros y blynnyddoedd diwethaf, wrth i bwysau o ran costau gynyddu a nifer y llythyrau ostwng, mae'r Post Brenhinol wedi bod yn ceisio adennill rhywfaint o'i gostau cynyddol fesul uned drwy godi ei brisiau. Ers 2021, mae'r cap wedi bod yn rhwymo yn gyson mewn perthynas â llythyrau safonol Ail Ddosbarth gyda'r Post Brenhinol yn gosod prisiau'r cynnyrch hyn ar yr uchafswm a ganiateir gan y cap neu'n agos iawn ato (fel y dangosir yn y siart isod).³⁷ I'r gwrthwyneb, er bod cap basged yn cynnwys parseli a llythyrau mawr Ail Ddosbarth hyd at 2024, roedd y Post Brenhinol fel arfer yn prasio'r rhain yn llawer iawn is na'r cap (nad yw'n cael ei ddangos yn y siart isod), ac arweiniodd hynny at dynnu'r cap ar brisiau parseli.


hyn ond byddai'n cael ei gyfyngu rhag gwneud hynny gan bris llythyr safonol gwasanaeth Ail Ddosbarth. Fe wnaethom gyfeirio at y cyfyngiad hwn fel effaith 'ysgol brisio'.

³⁶ Yn adolygiad Ofcom o'r cap diogelu yn 2019, caniatodd 5% o gynnydd mewn termau real, ochr yn ochr â chynnydd CPI blynnyddol, yn y cap a osodwyd ar gyfer llythyrau safonol Ail Ddosbarth a'r cap basged ar gyfer parseli a llythyrau mawr Ail Ddosbarth, gan nodi na fyddai cynnydd o'r fath yn gwneud yr eitemau hyn yn anfforddiadwy. Bryd hynny gwelodd Ofcom os na fyddai'n "codi lefel y cap ar lythyrau safonol, yna gall y rhyddid sydd gan y Post Brenhinol i godi prisiau leihau o fewn dwy i dair blynedd".

<https://www.ofcom.org.uk/siteassets/resources/documents/consultations/category-1-10-weeks/116444--review-of-second-class-stamp-safeguard-cap/associated-documents/datganiad-adolygiad-o-gapiau-diogelu-ail-ddosbarth-ar-gyfer-2019.pdf?v=323730>

³⁷ Dros y pedair blynedd diwethaf, o £0.66 ym mis Ebrill 2021 i £0.91 ym mis Ebrill 2026.

[8] Ffigur 1 prisiau nominal llythyrau Ail Ddosbarth y Post Brenhinol a lefelau cap diogelu Ofcom (£) ers 2016/17 ³⁸



Ffynhonnell: Data adrodd Royal Mail ers 2012/13.

Noder: O 2024/25 ymlaen, disodlwyd y cap ar lythyrau safonol Ail Ddosbarth gan gap basged ar lythyrau safonol ac estynedig Ail Ddosbarth. Mae'r bwlch rhwng y cap a'r pris gwirioneddol ("headroom") ar gyfer y cap hwn wedi'i olygu am resymau cyfrinachedd. Nid yw'r duedd yn y bwlch hwn ar gyfer y fasged yn wahanol mewn ffordd sylweddol i'r duedd yn y bwlch ar gyfer y cap ar lythyrau safonol rhwng 2020/21 a 2024/25.

Ein dull o asesu fforddiadwyedd gwasanaethau cyffredinol

- 2.29 Ers 2011, rydym wedi dilyn yr un dull yn fras o asesu fforddiadwyedd gwasanaethau post. Roedd ein hasesiadau fforddiadwyedd blaenorol yn canolbwyntio ar gwsmeriaid preswyl, ac yn benodol cwsmeriaid agored i niwed, ac yn ystyried a yw prisiau postio yn achosi niwed sylweddol iddynt.³⁹ Rydym wedi ystyried a allai niwed sylweddol gael ei achosi drwy ystyried i ba raddau:
- a) Bu'n rhaid i bobl brynu llai o wasanaethau post oherwydd y pris; a/neu
 - b) Roedd pobl yn dal i brynu gwasanaethau post ond y bu'n rhaid iddynt dorri'n ôl ar eitemau hanfodol eraill i fforddio gwasanaethau post.
- 2.30 Rydym wedi dweud eisoes nad oes yr un dull gweithredu o ran fforddiadwyedd sy'n gallu bod yn ddifiniol ynghylch a yw pris nwydd neu wasanaeth yn fforddiadwy ai peidio.⁴⁰ Mae hyn oherwydd bod incwm a defnydd, ac i ba raddau y mae defnyddwyr y post yn ystyried bod eu defnydd yn hanfodol, yn amrywio'n sylweddol. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd penderfynu ar lefel eang a yw rhywbeth yn fforddiadwy i bobl.⁴¹ Mewn asesiadau blaenorol, rydym wedi canolbwyntio ar y grwpiau

³⁸ Mae Royal Mail wedi'i gyfyngu i bennu prisiau hyd at yr union uchafswm a ganiateir o dan y cap, gan fod yn rhaid iddo bennu prisiau stampiau i'r geiniog gyfan agosaf.

³⁹ Ofcom, 2024. [Datganiad: Adolygiad o gap diogelu Ail Ddosbarth](#), t.55.

⁴⁰ Ofcom, 2025. [Cais am fewnbwn: Adolygiad o reoleiddio'r gwasanaeth post – prisiau a fforddiadwyedd](#), tudalen 17, paragraff 3.10 ac Ofcom 2019. [Adolygiad o Gapiau Diogelu Ail Ddosbarth ar gyfer 2019: Datganiad](#), paragraff 4.8.

⁴¹ Mae hyn yn cyd-fynd â rhai o'r safbwyntiau a nodir yn: Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd ar gyfer Gwasanaethau Post (ERGP), Rhagfyr 2024. [ERGP Report on the regulation of end-user pricing](#), tt.25-26. Mae'r adroddiad yn nodi ei

demograffig canlynol o ystyried y gallant fod yn fwy tebygol o fod yn agored i niwed mewn perthynas â chostau postio, oherwydd naill ai dibyniaeth uwch ar wasanaethau post a/neu incwm is na'r cyfartaledd: pobl hŷn, pobl ar incwm isel, pobl mewn ardaloedd gwledig, pobl heb fynediad i'r rhyngwrwyd/neu sgiliau digidol gwael, a phobl ag anableddau.⁴²

- 2.31 Rydym wedi defnyddio amrywiaeth o dystiolaeth i lywio ein hasesiadau fforddiadwyedd, sy'n cynnwys
- a) data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ar wariant teuluol, gan gynnwys gwariant cyfartalog ar bost, gwariant ar bost fel cyfran o incwm gwario, a gwariant ar bost fel cyfran o wariant ar gyfathrebu.⁴³
 - b) data'r SYG sy'n olrhain newidiadau i incwm aelwydydd.⁴⁴
 - c) cymariaethau rhyngwladol o brisiau postio.
 - d) mae ein hymchwil Traciwr Post Preswyl rheolaidd sy'n sail i'n dealltwriaeth o sut mae pobl yn defnyddio gwasanaethau post a pha mor aml maen nhw'n gwneud hynny, ynghyd â'u hagwedd tuag at y post.⁴⁵

Ein barn gychwynnol yw nad yw'r rhan fwyaf o bobl yn dioddef niwed sylweddol oherwydd prisiau postio

- 2.32 Rydym wedi gweld yn gyson nad yw'r rhan fwyaf o bobl yn dioddef niwed sylweddol oherwydd prisiau postio, a bod y prisiau yn fforddiadwy i'r rhan fwyaf o bobl.⁴⁶ Mae ein dadansoddiad wedi dangos y canlynol yn rheolaidd:
- a) Mae'r gwariant cyfartalog ar bost yn dal yn isel iawn ac yn gyfran fach o incwm gwario pobl hyd yn oed wrth ystyried patrymau defnyddio gwahanol a lefelau incwm gwahanol.
 - b) Mae prisiau llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth yn y DU yn is na phrisiau'r rhan fwyaf o wledydd eraill tebyg.⁴⁷ Mae stamp llythyr Ail Ddosbarth yn y DU yn costio 91c heddiw. O gymharu â'r cynhyrchion cyfatebol agosaf y gallwn ddod o hyd iddynt, mae hyn yn llai na hanner cymedr (£2.07) a thua hanner canolrif (£1.81) gwledydd Ewrop.⁴⁸
 - c) Mae ein tystiolaeth ymchwil hefyd wedi dangos bod rhai pobl o bosibl yn fwy dibynnol ar wasanaethau post ond nid yw'r rhan fwyaf ohonynt yn tueddu i'w defnyddio'n amlach na'r cyfartaledd.⁴⁹ Felly, er bod yn rhaid i bobl o'r fath ddefnyddio

bod yn eithaf anodd diffinio fforddiadwyedd mewn termau economaidd gan fod llawer o ffactorau ar waith fel pris y gwasanaeth, lefel y defnydd, cyfran gwariant aelwydydd ac argaeledd dewisiadau amgen.

⁴² Ofcom, 2024. [Adolygiad o gapiau diogelu Ail Ddosbarth 2024; penderfyniad ar gapiau diogelu prisiau ar gyfer gwasanaethau cyffredinol Ail Ddosbarth](#), paragraff 5.34 ac Ofcom, 2025. [Cais am fewnbwn: Adolygiad o reoleiddio'r gwasanaeth post – prisiau a fforddiadwyedd](#), tt.17-18, paragraffau 3.13-3.14.

⁴³ SYG, 2025. [Family spending in the UK: April 2023 to March 2024](#). Nodwn mai 2023/ 2024 yw data diweddaraf y SYG lle mae data cyson ar gyfer gwariant ac incwm.

⁴⁴ Er enghraifft: SYG, 2026. [Average weekly earnings in Great Britain \(January 2026\): estimates of growth in earning for employees before tax and other deductions from pay](#).

⁴⁵ [Traciwr Post Preswyl 2025](#).

⁴⁶ Ofcom, 2024. [Datganiad: Adolygiad o gap diogelu Ail Ddosbarth](#), tt.85-86; Ofcom, 2025. [Cais am fewnbwn: Adolygiad o reoleiddio'r gwasanaeth post – prisiau a fforddiadwyedd](#), tudalen 25, paragraff, 3.53.

⁴⁷ Yn gyffredinol, mae gan y DU bris cymharol isel ar gyfer ei stamp rhataf o'i gymharu â gwledydd eraill, ar sail cyfuno gwasanaethau blaenoriaeth a gwasanaethau nad ydynt yn flaenoriaeth sydd â gwahanol gyfyngiadau o ran pwysau a nodweddion gwasanaeth. Wrth gymharu dim ond gwasanaethau nad ydynt yn flaenoriaeth sy'n cyfateb yn agosach i Ail Ddosbarth y DU o ran terfynau pwysau, unwaith eto mae gan y DU brisiau cymharol isel (y pedwerydd isaf yn y rhestr prisiau o'r 28 gwlad rydym wedi'u hystyried).

⁴⁸ Cymharwyd yr UE ynghyd â Norwy, y Swistir a'r DU.

⁴⁹ Gweler, er enghraifft, ganfyddiadau'r [Traciwr Post Preswyl](#) fod pobl sydd ar yr incwm isaf, pobl nad ydynt yn gweithio, pobl ar fudd-daliadau a phobl hŷn (65 oed a hŷn) yn fwy tebygol o ddweud nad ydynt wedi anfon unrhyw eitemau drwy'r post yn ystod y mis diwethaf. Canfu hefyd fod pobl mewn ardaloedd gwledig (gan gynnwys ardaloedd gwledig anghysbell) yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddweud eu bod wedi anfon eitem

gwasanaethau post, nid yw hynny'n golygu eu bod yn gwario mwy ar y gwasanaethau hyn na'u bod yn wynebu mwy o broblemau fforddiadwyedd na'r defnyddiwr cyffredin.

- 2.33 Fodd bynnag, rydym wedi cydnabod yn gyson y gallai cyfran fach o bobl fod yn fwy tebygol o wynebu problemau fforddiadwyedd, gyda'r rhai ar incwm is yn fwy tebygol o fod yn agored i niwed mewn perthynas â phrisiau postio uwch.⁵⁰
- 2.34 Fel rhan o'n dull o ran prisiau a fforddiadwyedd o fis Ebrill 2027 ymlaen, fe wnaethom gyhoeddi Cais am Fewnbwn ym mis Tachwedd 2025.⁵¹ Roedd y Cais am Fewnbwn yn disgrifio'r materion sy'n ymwneud â phrisiau a fforddiadwyedd, gan gynnwys ffyrdd eraill o fynd i'r afael â'r risg o ran fforddiadwyedd, fel cynllun disgownt wedi'i dargedu. Rydym wedi nodi rhai sylwadau cychwynnol yn y ddogfen honno. Dyma grynoded:
- i) Mewn termau absoliwt ac fel cyfran o gyfanswm gwariant aelwydydd, mae'r gwariant cyfartalog ar wasanaethau post gyda'i gilydd wedi aros yn gyson isel ers blyneddau lawer.⁵² Yn 2023/24, roedd yr aelwyd gyfartalog yn gwario tua £2.60 y mis ar wasanaethau post (sy'n cyfateb i £0.60 yr wythnos fel yr adroddwyd yng Nghais am Fewnbwn Priso 2025). Roedd y gwariant ar bost ar gyfer y cwintel incwm isaf yn 2023/24 yn £1.52, sydd dros 40% yn is na'r gwariant cyfartalog ar draws pob aelwyd.⁵³ Wrth gymharu gwariant ar bost â gwariant hanfodol arall, mae hyn wedi aros yn gymharol isel. Mae dadansoddiad y Cais am Fewnbwn yn dangos bod aelwydydd ym mhob deigradd incwm, ac eithrio'r deigradd isaf, yn gwario dim mwy na 0.24% o'u hincwm gwario net ar gyfer gwasanaethau hanfodol ar wasanaethau post.⁵⁴ Fodd bynnag, mae gwariant ar wasanaethau post yn rhoi mwy o faich ar aelwydydd yn y deigradd incwm isaf. Dangosodd ein dadansoddiad yn 2023/24 fod y deigradd hwn wedi gwario 5.87% o'i incwm gwario net ar gyfer gwasanaethau hanfodol ar wasanaethau post, i fyny o 0.97% yn 2022/23. Nododd y Cais am Fewnbwn fod hyn wedi amrywio yn ystod y blyneddau diwethaf oherwydd y newid yn lefelau'r incwm sy'n weddill ar ôl gwario ar eitemau hanfodol, sy'n effeithio'n benodol ar y rheini yn y deigraddau incwm isaf.^{55 56}
 - ii) Gwelsom mai dim ond cyfran fach o gwsmeriaid preswyl sy'n debygol o wynebu problemau o ran fforddio anfon post. Mae hyn yn gyson â'n hasesiadau

drwy'r post yn ystod y mis diwethaf. QG1:Yn fras, faint o'r canlynol ydych chi wedi'u hanfon fis yma? Bydd data diweddaraf y traciwr post ar gael ym mis Hydref 2026.

⁵⁰ Er enghraifft, Ofcom, 2025. [Cais am fewnbwn: Adolygiad o reoleiddio'r gwasanaeth post – prisiau a fforddiadwyedd](#), tudalen 26.

⁵¹ Ofcom, 2025. [Cais am fewnbwn: Adolygiad o reoleiddio'r gwasanaeth post – prisiau a fforddiadwyedd](#).

⁵² Ofcom, 2025. [Cais am fewnbwn: Adolygiad o reoleiddio'r gwasanaeth post – prisiau a fforddiadwyedd](#), tudalen 20, paragraff, 3.30.

⁵³ SYG, 2025. [Family spending in the UK: April 2023 to March 2024](#). Nodwn mai 2023/2024 yw data diweddaraf y SYG lle mae data cyson ar gyfer gwariant ac incwm. Byddwn yn ei ddiweddarau pan fydd data 2024/2025 ar gael.

⁵⁴ Ofcom, 2025. [Cais am fewnbwn: Adolygiad o reoleiddio'r gwasanaeth post – prisiau a fforddiadwyedd](#), tudalen 21, paragraff, 3.33.

⁵⁵ Ofcom, 2025. [Cais am fewnbwn: Adolygiad o reoleiddio'r gwasanaeth post – prisiau a fforddiadwyedd](#), tudalen 21, paragraff, 3.34.

⁵⁶ Mae'n bwysig nodi bod y ffigurau hyn yn seiliedig ar ddiffiniad y SYG o'r holl wasanaethau post a'u bod yn debygol o gynnwys parseli (sy'n ddrutach i'w hanfon na llythyrau). Felly, mae'r gwariant cyfartalog wythnosol ar llythyrau yn debygol o fod gryn dipyn yn llai. Ar y llaw arall, rydym hefyd yn nodi bod y ffigurau hyn yn cynnwys aelwydydd nad oeddent yn gwario unrhyw beth ar bost, felly mae'r gwariant wythnosol cyfartalog yn debygol o fod yn is na phetai'r ffigur ond yn cynnwys y rheini a oedd yn defnyddio gwasanaethau post. Ofcom, 2025. [Cais am fewnbwn: Adolygiad o reoleiddio'r gwasanaeth post – prisiau a fforddiadwyedd](#), tudalen 20, paragraff, 3.31 – 3.32.

fforddiadwyedd blaenorol mai dim ond cyfran fach o gwsmeriaid sy'n wynebu problemau o ran fforddiadwyedd. Mae problemau o ran fforddio postio fel arfer yn gysylltiedig ag amrywiaeth o ffactorau, fel y sefyllfa economaidd gyffredinol, amgylchiadau personol, ac amllder defnyddio'r post. Mae ein tystiolaeth yn awgrymu bod y rheini sy'n debygol o wynebu problemau fforddiadwyedd y post ar hyn o bryd fel arfer ar incwm isel a/neu mewn grŵp agored i niwed, er enghraifft y rheini sy'n cael budd-daliadau'r wladwriaeth, y rheini nad ydynt yn gallu gadael cartref heb gymorth, a'r rheini sydd â chyflwr sy'n effeithio neu'n cyfyngu arnynt.⁵⁷

- iii) Roedd ymchwil ansoddol Jigsaw 2025 (a oedd wedi siarad â phobl a oedd yn gymwys i gael, neu'n cael, budd-daliadau penodol gyda chyfran sylweddol o'r sampl hefyd yn wynebu problemau o ran fforddio anfon post) yn dangos bod costau byw yn dal yn her i rai defnyddwyr mewn aelwydydd incwm isel. Er bod maint y trafferthion ariannol yn amrywio ar draws yr holl gyfranogwyr, roedd pethau'n dynn i bawb, a gwelwyd mai 'cwtogi' oedd yr unig ymateb a oedd ar gael i'r pwysau ar eu sefyllfa ariannol.⁵⁸
- iv) Gallai dulliau eraill o ymdrin â fforddiadwyedd, fel cynllun disgownt wedi'i dargedu, fod o fudd i gwsmeriaid agored i niwed.⁵⁹

Wrth wneud penderfyniadau hirdymor ynghylch prisiau mae angen gwybodaeth ynglŷn â diwygio'r USO a pherfformiad ansawdd gwasanaeth, yn ogystal â thystiolaeth ar fforddiadwyedd

- 2.35 O ystyried y gostyngiad strwythurol parhaus yn nifer y llythyrau, mae'n debygol mai'r duedd hirdymor fydd i brisiau llythyrau gynyddu i gefnogi cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol, fel sydd wedi digwydd mewn gwledydd eraill. Fel y dangosir uchod, mae prisiau llythyrau yn y DU yn dal yn isel o'u cymharu â gwledydd eraill.
- 2.36 Ar yr un pryd, mae fforddiadwyedd yn dal yn ystyriaeth bwysig, yn enwedig gan fod y Post Brenhinol yn wynebu cyfyngiadau cystadleuol cyfyngedig o ran darparu llythyrau ac mae'n parhau i fod yr unig ddarparwr gwasanaeth danfon llythyrau cyffredinol o un pen o'r wlad i'r llall. Fe wnaethom ddechrau prosiect yn 2025, ar ôl ein penderfyniad ar ddiwygio'r USO, i osod dull hirdymor newydd o reoleiddio prisiau gan ystyried yr amcanion o ran cynaliadwyedd a fforddiadwyedd a allai wrthdaro â'i gilydd.
- 2.37 Fe wnaethom nodi ein syniadau cychwynnol yn ein Cais am Fewnbwn yn 2025 a gofyn am farn rhanddeiliaid gyda'r bwriad o gyhoeddi cynigion ymgynghori yn Ch4 2025/26.⁶⁰ Cawsom ymatebion gan amrywiaeth o randdeiliaid, ac ym mis Ionawr 2026 fe wnaethom gyhoeddi'r ymatebion nad oeddent yn rhai cyfrinachol ar ein gwefan.⁶¹ ⁶² Mynegodd llawer o randdeiliaid bryderon wrth i ni

⁵⁷ Ofcom, 2025. [Cais am fewnbwn: Adolygiad o reoleiddio'r gwasanaeth post – prisiau a fforddiadwyedd](#), t25, paragraff, 3.53 – 3.55. [Traciwr Post Preswyl 2024-25](#), QG2.

⁵⁸ Ofcom, 2025. [Cais am fewnbwn: Adolygiad o reoleiddio'r gwasanaeth post – prisiau a fforddiadwyedd](#), t26, paragraff, 3.44 – 3.46, 3.58. Jigsaw, 2025, Post affordability: benefits recipients' perspective on a potential targeted discount scheme – [qualitative research findings](#), sleidiau 4, 7 – 8 a 40 - 41.

⁵⁹ Ofcom, 2025. [Cais am fewnbwn: Adolygiad o reoleiddio'r gwasanaeth post – prisiau a fforddiadwyedd](#), t4.

⁶⁰ Fe wnaethom gyflwyno ein syniadau cychwynnol ar yr egwyddorion allweddol a'r dewisiadau dylunio a allai arwain at gynllun disgownt effeithiol, nodi'r ymchwil a gomisiynwyd gennym i archwilio dulliau gweithredu, a nodi ein trafodaethau gyda'r Post Brenhinol ynghylch ei syniadau mewn perthynas â chynllun.

⁶¹ Mae ymatebion i'n Cais am Fewnbwn ar gael ar ein [gwefan](#).

⁶² Roedd y rhain yn cynnwys 31 o ymatebion gan amrywiaeth o sefydliadau: cwmnïau cardiau, busnesau post, cymdeithasau masnach, pwyllgorau cynghori, cyrff defnyddwyr, grwpiau undebau, banciau, elusennau a busnesau cyfathrebu. Cawsom hefyd 11 o ymatebion gan unigolion ac ymatebion gan grŵp ymgyrch We Own It.

osod rheoliadau ar gyfer rheoli prisiau hirdymor ar hyn o bryd. Er enghraifft, fe wnaethon nhw dynnu sylw at yr ansicrwydd ynghylch a fydd diwygiadau'r USO yn cael eu rhoi ar waith, a phryd, a pha effaith y gallent ei chael ar y Post Brenhinol.⁶³ Roedd rhai rhanddeiliaid yn argymhell oedi byr i'n galluogi i ystyried effaith unrhyw ddiwygiadau, a pherfformiad ariannol y Post Brenhinol ar ôl diwygio'r USO, yn ein dull prasio tymor hir.⁶⁴

- 2.38 Roedd yr awgrymiadau eraill a godwyd gan rhanddeiliaid yn cynnwys gwneud rhagor o waith ar y canlynol: (i) fforddiadwyedd gwasanaethau USO; (ii) sut gallai cynllun wedi'i dargedu fynd i'r afael â phryderon ynghylch fforddiadwyedd; ac (iii) ffyrdd o gymhell y Post Brenhinol i wella ei berfformiad gwael o ran arian ac ansawdd gwasanaeth drwy roi newidiadau i'r USO ar waith cyn gynted â phosibl.⁶⁵ Mae rhai rhanddeiliaid wedi awgrymu y dylem osod rheolaethau pris ehangach ar gyfer gwasanaethau cyffredinol, a gwasanaethau mynediad, tra bo eraill wedi awgrymu y dylai cynnydd mewn prisiau yn y dyfodol fod yn amodol ar welliannau mewn ansawdd gwasanaeth.⁶⁶ Awgrymodd y Post Brenhinol y dylid dileu'r cap prisiau ar yr Ail Ddosbarth gan ei fod yn peryglu ei allu i ddarparu USO sy'n gynaliadwy'n ariannol.⁶⁷
- 2.39 Yn dilyn ein dadansoddiad o ymatebion rhanddeiliaid i Gais am Fewnbwn Prasio 2025 a'r oedi cyn i'r Post Brenhinol ddiwygio'r USO, fe wnaethom gyhoeddi diweddariad ym mis Mawrth 2026 a oedd yn nodi oedi i'n hymgyngoriad ar brisiau yn y dyfodol tan yn ddiweddarach yn 2026.⁶⁸
- 2.40 Mae'r Post Brenhinol yn mynd drwy raglen drawsnewid fawr, a disgwylir i hynny effeithio ar gynaliadwyedd ariannol y busnes a pherfformiad ansawdd ei wasanaeth. Ar ben hynny, mae ei berfformiad ansawdd gwasanaeth, sy'n rhan allweddol o'r gwasanaeth cyffredinol, wedi bod yn wael iawn. Rydym yn credu bod angen i ni ystyried canlyniad y newidiadau yn y meysydd hyn fel rhan o'n hasesiad o'r cap diogelu. Rydym yn trafod yr effeithiau hyn yn yr adrannau sy'n dilyn.

⁶³ [Ymateb y Card Factory](#) i Gais am Fewnbwn 2025, t.1; [ymateb Jessie Maeve Studio](#) i Gais am Fewnbwn 2025, t.1; [ymateb Hallmark](#) i Gais am Fewnbwn 2025, t.1; [ymateb Swyddfa'r Post](#) i Gais am Fewnbwn 2025, paragraff 2.1.4, t.6; [ymateb Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau \(CCP\)](#) i Gais am Fewnbwn 2025, t.3; [ymateb Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon \(CCNI\)](#) i Gais am Fewnbwn 2025, t.13; [ymateb Cyngor ar Bopeth](#) i Gais am Fewnbwn 2025, paragraff 5.5, t.27; [ymateb Consumer Scotland](#) i Gais am Fewnbwn 2025, t.5; ac [adendwm i gyflwyniad mis Rhagfyr 2025 y Greeting Card Association \(GCA\) - ymateb](#) i Gais am Fewnbwn 2025, tt.1-2.

⁶⁴ [Ymateb GCA](#) i Gais am Fewnbwn 2025, tt.1-2 ac [ymateb Consumer Scotland](#) i Gais am Fewnbwn 2025, t.6.

⁶⁵ [Ymateb Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau \(CCP\)](#) i Gais am Fewnbwn 2025, t.2 a t.9; [ymateb Swyddfa'r Post](#) i Gais am Fewnbwn 2025, paragraff 2.2.6, t.7 a pharagraff 1.7, t.5; [ymateb Consumer Scotland](#) i Gais am Fewnbwn 2025, tt.7-8 a t.16; [ymateb Cyngor ar Bopeth](#) i Gais am Fewnbwn 2025, paragraff 3.6, t.15 a pharagraff 3.8 tt.16-17; ac [ymateb Quadient](#) i Gais am Fewnbwn 2025, t.4.

⁶⁶ [Ymateb y Card Factory](#) i Gais am Fewnbwn 2025, t.2; [ymateb Jessie Maeve Studio](#) i Gais am Fewnbwn 2025, t.1; [ymateb Hallmark](#) i Gais am Fewnbwn 2025, t.1; [ymateb Swyddfa'r Post](#) i Gais am Fewnbwn 2025, paragraff 1.8, t.5; [ymateb Cyngor ar Bopeth](#) i Gais am Fewnbwn 2025, paragraff 1.8, tt.3-4; [ymateb Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon \(ACNI\)](#) i Gais am Fewnbwn 2025, t.3; [ymateb Citpost Mail](#) i Gais am Fewnbwn 2025, tt.3-5; [ymateb y Gymdeithas Defnyddwyr Post \(MUA\)](#) i Gais am Fewnbwn 2025, paragraff 3.8, t.2; [ymateb Whistl](#) i Gais am Fewnbwn 2025, t.2; [ymateb y Mail Competition Forum \(MCF\)](#) i Gais am Fewnbwn 2025, t.3; [ymateb HSBC](#) i Gais am Fewnbwn 2025, tt.3-4; [ymateb The Postal Group](#) i Gais am Fewnbwn 2025, t.2; [ymateb UK Mail](#) i Gais am Fewnbwn 2025, t.2; ac [ymateb Quadient](#) i Gais am Fewnbwn 2025, tt.5-6.

⁶⁷ [Ymateb y Post Brenhinol](#) i Gais am Fewnbwn 2025, tt.17-21.

⁶⁸ Fe wnaethom gyhoeddi diweddariad ar ein hamserlen ar gyfer yr adolygiad ar 13 Mawrth 2026 ar ein [gwefan](#).

Deall effeithiau ariannol rhoi newidiadau ar waith o fewn yr USO

- 2.41 Ers 28 Gorffennaf 2025, bu modd i'r Post Brenhinol roi ar waith newidiadau i'w weithrediadau a alluogwyd gan ein datganiad ym mis Gorffennaf 2025. Mae'r gwaith hwnnw wedi cael ei ohirio'n sylweddol oherwydd yr anghydfod diwydiannol rhwng y Post Brenhinol ac CWU ynghylch sut dylid rhoi'r diwygiadau ar waith yn ymarferol. Ar 16 Ebrill 2026, cyhoeddodd y Post Brenhinol ei fod wedi dod i gytundeb gyda'r CWU ar weithredu'r newidiadau i'r USO drwy fodel danfon diwygiedig (DM26) ar gyfer danfon llythyrau Ail Ddosbarth bob yn ail ddiwrnod. Mae'r Post Brenhinol wedi datgan ei fod yn disgwyl cwblhau'r gwaith o gyflwyno DM26 ledled y wlad cyn Nadolig 2026.^{69 7071}
- 2.42 Ar sail y newidiadau y cytunwyd arnynt gyda CWU, mae'r Post Brenhinol yn credu y bydd defnyddio DM26 yn llwyddiannus yn arwain at arbedion cost o £300m. Fodd bynnag, nid yw'n sicr a fydd y Post Brenhinol yn cyflawni'r arbedion cost hyn, na phryd. Mae peth o'r ansicrwydd yn codi oherwydd yr heriau y mae'r Post Brenhinol yn eu hwynebu o ran rhoi'r newidiadau angenrheidiol ar waith yn llwyddiannus cyn mis Rhagfyr 2026, sef ei gyfnod prysuraf.⁷²
- 2.43 Mae'r arbedion cost y gellid eu sicrhau drwy ddiwygio'r USO yn sylweddol, ond nid ydynt yn ddigon ar eu pennau eu hunain i sicrhau cynaliadwyedd ariannol yr USO. Mae cynaliadwyedd hirdymor y Post Brenhinol yn dibynnu ar ei allu i sicrhau twf sylweddol mewn parseli, codi prisiau mewn ymateb i'r cynnydd mewn costau unedau, a thrawsnewid ei rwydwaith a'i weithrediadau.⁷³ Os nad yw'r Post Brenhinol yn gallu cyflawni cyfran fawr o fuddion posibl diwygio'r USO, yna bydd y risgiau i gynaliadwyedd ariannol yn fwy. I'r gwrthwyneb, po fwyaf llwyddiannus yw'r Post Brenhinol o ran sicrhau arbedion cost, y mwyaf fydd y gostyngiad yn y pwysau uniongyrchol ar gynaliadwyedd. Mae angen lefel resymol o sicrwydd arnom ynghylch yr effeithiau ariannol er mwyn gosod rheolaeth hirdymor briodol.
- 2.44 Rydym yn cael gwybodaeth am gyflwyno DM26 ac unrhyw arbedion cost cysylltiedig drwy ein rhaglen fonitro. Fodd bynnag, ni fydd gennym sylfaen dystiolaeth ddibynadwy a sefydlog ar yr effeithiau ariannol nes bydd DM26 wedi cael ei roi ar waith yn eang ledled y DU ac wedi bod yn weithredol mewn swyddfeydd danfon am gyfnod.

Deall effeithiau diwygio'r USO ar berfformiad Ansawdd Gwasanaeth

- 2.45 Mae perfformiad ansawdd gwasanaeth y Post Brenhinol wedi bod yn annerbyniol dros y blynyddoedd diwethaf.⁷⁴ Fe wnaethom roi dirwy i'r Post Brenhinol ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf am fethu ei dargedau ansawdd gwasanaeth: £5.6m (Tachwedd 2023), £10.5m (Rhagfyr 2024) a £21m (Hydref 2025) - cyfanswm o fwy na £37m. Ar hyn o bryd

⁶⁹ Mae'n broses 10 wythnos i bob swyddfa danfon gwblhau ei gwaith cyflwyno ei hun.

⁷⁰ [Royal Mail-QoS-Improvement-Plan-FINAL.pdf](#)

⁷¹ Ar 9 Hydref 2026, [cyhoeddodd yr CWU saib](#) ar unrhyw waith pellach i gyflwyno DM26, gan ddweud bod angen cytuno ar gynllun gyda Royal Mail i fynd i'r afael â'r problemau sy'n effeithio ar yr unedau hynny nad ydynt yn gweithredu'n llwyddiannus ar hyn o bryd. Yn dilyn y cyhoeddiad hwn, mae Royal Mail wedi gofyn am ddechrau trafodaethau â'r CWU ar unwaith.

⁷² [Royal Mail-QoS-Improvement-Plan-FINAL.pdf](#)

⁷³ Ofcom 2025. [Datganiad: Adolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol a rheoleiddio'r gwasanaeth post](#), tt.77-78. Gwnaethom bwysleisio na fydd diwygio'r gwasanaeth cyffredinol yn unig yn ateb heriau gweithredol ac ariannol ehangach y Post Brenhinol, ac mae angen i'r busnes gymryd camau pellach.

⁷⁴ Cyhoeddodd y Post Brenhinol ei ganlyniadau blwyddyn lawn archwiliedig diweddaraf (2025/26) ar 29 Mai 2026: Mae 75.7% o bost Dosbarth Cyntaf yn cael ei ddanfôn y diwrnod gwaith nesaf (yn erbyn y targed bryd hynny o 93%) ac mae 90.2% o bost Ail Ddosbarth yn cael ei ddanfôn cyn pen tri diwrnod gwaith (yn erbyn 98.5%). Mae hyn yn golled sylweddol a pharhaus yn erbyn y targedau ers 2022/23.

rydym yn ymchwilio'n ffurfiol i gydymffurfiaid y Post Brenhinol â'i dargedau ansawdd gwasanaeth 2025/26. Bydd hyn yn ystyried a oes cyfiawnhad dros gosb ariannol am y bedwaredd flwyddyn yn olynol.⁷⁵

- 2.46 Rydym wedi dweud yn gyson wrth y Post Brenhinol bod yn rhaid iddo wella'r gwasanaeth mae'n ei ddarparu i'w gwsmeriaid yn sylweddol ac yn barhaus. Er mwyn sicrhau'r gwelliannau sylweddol sydd eu hangen ym mherfformiad gwasanaeth y Post Brenhinol, fe wnaethom ofyn am gynllun credadwy wedi'i gyhoeddi sy'n:
- gwella ansawdd y gwasanaeth ac yn adfer ffydd defnyddwyr y post,
 - cynnwys amserlen ar gyfer pryd mae'n disgwyl y bydd yn ailddechrau cydymffurfio â'r rhwymedigaethau rheoleiddiol, ac
 - sy'n cael ei gefnogi gan y rhiant-gwmni a'i gynnal gan y buddsoddiad angenrheidiol yn y rhwydwaith.
- 2.47 Cyhoeddodd y Post Brenhinol ei gynllun gwella ar 21 Ebrill, yn dilyn cytundeb CWU. Mae'r Post Brenhinol wedi dweud bod cyrraedd targedau ansawdd gwasanaeth yn dibynnu ar gyflwyno diwygiadau'r USO h.y. DM26.⁷⁶ Dywedodd fod y model blaenorol yn ei gwneud yn ofynnol iddo gynnal seilwaith helaeth a allai ddanfôn pob llythyr i bob cyfeiriad chwe diwrnod yr wythnos, er mai dim ond llythyrau i tua phedwar o bob deg o'r cyfeiriadau hynny sydd ganddo i'w ddanfôn bob dydd. Mae cyfuniad o ostyngiad yn nifer y llythyrau a chynnydd yn nifer y cyfeiriadau ers 2004/05 wedi golygu bod yn rhaid i bostmyn gerdded tair gwaith cyn belled i ddanfôn yr un nifer o lythyrau. Roedd hyn wedi arwain at ddanfôn post yn hwyrach na'r disgwyl wrth i lwybrau danfôn beidio â chael eu cwblhau. Mae'r Post Brenhinol yn credu bod mynd i'r afael â'r mater hwn yn allweddol i wella perfformiad ansawdd ei wasanaeth ac, o dan y model newydd, y bydd yn danfôn i tua saith o bob deg cyfeiriad ar bob rownd. Mae'r cynnydd yng nghyfradd galwadau yn golygu bod llwybrau'n fwy tebygol o gael eu cwblhau bob dydd, gan leihau oedi.^{77 78}
- 2.48 Mae'r Post Brenhinol wedi ymrwymo i ail-fuddsoddi £500m o'r arbedion a gynhyrchwyd drwy ddiwygio'r USO yn ei seilwaith dros bum mlynedd. Mae hyn yn rhan o weithredu'r model danfôn newydd a sicrhau y bydd ansawdd y gwasanaeth yn gwella gyda llwybr fesul cam o chwarter i chwarter yn ôl i'r targedau rheoledig erbyn mis Ebrill 2027.⁷⁹ Mae'r Post Brenhinol yn dweud y bydd y buddsoddiad hwn yn cael ei gysylltu'n uniongyrchol â gwella'r gwaith o gwblhau llwybrau, darparu adnoddau ar y lefel briodol mewn swyddfeydd danfôn, a sicrhau gwelliannau mesuradwy ym mherfformiad ansawdd y gwasanaeth. Rydym wedi bod yn glir gyda'r Post Brenhinol y bydd yn cael ei ddal at yr ymrwymadau hyn, ac y bydd angen i ni weld newid mewn canlyniadau yn erbyn y targedau ansawdd gwasanaeth.
- 2.49 Mae'r Post Brenhinol yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am gynnydd ei gynlluniau cyflwyno a data dangosol ar berfformiad danfôn y model gweithredu newydd wrth iddo gael ei roi ar waith ar draws y rhwydwaith cenedlaethol.⁸⁰ Bydd hyn yn dangos a yw'r Post Brenhinol yn cyflawni'r cynnydd graddol mewn ansawdd gwasanaeth y mae wedi'i nodi yn ei lwybr fesul cam. Fodd bynnag, mae'n dal yn ansicr a fydd DM26 yn arwain

⁷⁵ [Ofcom yn ymchwilio i berfformiad dosbarthu'r Post Brenhinol yn 2025/26](#) [cyrchwyd 5 Hydref 2026].

⁷⁶ [Royal Mail-QoS-Improvement-Plan-FINAL.pdf](#) Cyrchwyd 5 Hydref 2026

⁷⁷ [Royal Mail-QoS-Improvement-Plan-FINAL.pdf](#) t.6.

⁷⁸ Y 'gyfradd galwadau' yw'r berthynas rhwng faint o bost sydd i'w ddanfôn mewn ardal a chyfran yr holl bwyntiau danfôn mae'n rhaid teithio iddynt ar ddiwrnod penodol.

⁷⁹ [The Future of Letter Deliveries](#) [cyrchwyd 5 Hydref 2026].

⁸⁰ [The Future of Letter Deliveries](#) [cyrchwyd 5 Hydref 2026].

at welliant parhaus o ran lefelau ansawdd gwasanaeth, sy'n cyfrannu at yr anhawster wrth benderfynu ar ddull hirdymor o brisio ar hyn o bryd.⁸¹

Deall dull y Post Brenhinol o ymdrin â mesurau fforddiadwyedd wedi'u targedu

- 2.50 Fel y trafodwyd uchod, credwn fod prisiau llythyrau yn fforddiadwy i'r rhan fwyaf o bobl ond efallai fod rhai pobl ar incwm isel iawn a allai wynebu heriau o ran fforddiadwyedd. O ystyried hyn, rydym yn dal i feddwl y gallai fod rhinwedd mewn cynllun disgownt wedi'i dargedu.
- 2.51 Nododd y Post Brenhinol ei farn gychwynnol ynghylch cynllun wedi'i dargedu yn ei ymateb i'n Cais am Fewnbwn Prisio 2025, ac mae wedi bod yn gweithio ar sut y gall weithredy cynllun targededig.^{82 83}
- 2.52 Rydym yn annog y Post Brenhinol i symud ymlaen â chynllun cyn gynted â phosibl. Byddem yn disgwyl i unrhyw gynllun esblygu dros amser drwy adolygu canlyniadau a gwneud addasiadau i sicrhau ei fod yn effeithiol ac yn darparu gwerth.
- 2.53 Pe bai cynllun wedi'i dargedu yn cael ei roi ar waith ac yn gwbl weithredol, byddem yn gallu ei ystyried yn ein penderfyniadau prisio yn y dyfodol. Er enghraifft, efallai y byddai'n briodol llacio (neu ddileu) y cap diogelu pe bai cynllun wedi'i dargedu yn lleihau risgiau fforddiadwyedd yn sylweddol, yn enwedig i'r rhai sy'n darganfod nad ydynt yn gallu anfon llythyrau hanfodol oherwydd y pris. Fodd bynnag, nes bydd cynllun o'r fath ar waith, ni allwn ei ystyried yn ein hasesiad na'n penderfyniadau ar brisiau.

Ein ffordd o fynd ati gyda'r ymgynghori hwn

- 2.54 O ystyried y cyd-destun rydym wedi'i nodi yn yr adran hon, pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw ystyried beth ddylai ddigwydd i'r cap diogelu presennol a fydd yn dod i ben ym mis Mawrth 2027. Mae Adran 3 yn nodi'r opsiynau ar gyfer y cap diogelu, gan gynnwys ein dull gweithredu arfaethedig, ac yn ystyried ffactorau amrywiol fel yr effeithiau ar fforddiadwyedd, cynaliadwyedd ariannol ac effeithlonrwydd wrth asesu'r opsiynau hyn.

Asesiad o'r effaith

- 2.55 Mae Adran 7 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu ein bod yn cynnal ac yn ymgynghori ar asesiad o effaith debygol gweithredu cynnig a fyddai'n debygol o gael effaith sylweddol ar fusnesau neu'r cyhoedd, neu pan fydd newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom. Yn fwy cyffredinol, mae asesiadau effaith yn rhan o'r gwaith o lunio polisiau da ac felly rydym yn disgwyl eu cynnal mewn perthynas â'r rhan fwyaf o'n cynigion. Rydym yn defnyddio asesiadau effaith i'n helpu i ddeall ac asesu effaith bosibl ein penderfyniadau polisi cyn i ni wneud y penderfyniadau hynny. Maen nhw hefyd yn ein helpu i esbonio'r penderfyniadau polisi rydym wedi'u gwneud a pham ein bod yn credu mai'r penderfyniadau hynny sy'n cyflawni ein dyletswyddau a'n hamcanion perthnasol yn y ffordd sy'n tarfu leiaf. Mae ein

⁸¹ I ganiatáu ar gyfer cwblhau'r gwaith o gyflwyno hyn yn llawn, ymwreiddio ar draws yr holl unedau dosbarthu, a mesur ansawdd cyffredinol y gwasanaeth ar lefel genedlaethol.

⁸² [Ymateb y Post Brenhinol](#) i Gais am Fewnbwn Prisio 2025, tt.22-33.

⁸³ Gwybodaeth a ddarparwyd mewn ymateb i gais o dan adran 55 ar 22 Gorffennaf 2026.

canllawiau ar asesu effaith yn nodi ein dull gweithredu cyffredinol ar gyfer asesu a chyflwyno effaith ein penderfyniadau arfaethedig.⁸⁴

- 2.56 Mae'r dyletswyddau perthnasol mewn perthynas â'r cynnig dan sylw yn ein hymgyngoriad wedi'u nodi ym mharagraffau 2.1 i 2.7 ac Atodiad 2. Mae Adran 2 y ddogfen hon yn rhoi'r cyd-destun perthnasol ar gyfer ein cynnig, ac mae paragraffau 2.65 – 2.69 yn nodi ein hasesiad dros dro o'r effaith ar gydraddoldeb. Mae Adran 3 yn nodi ein barn ynghylch y cap diogelu presennol a'r opsiynau ar ei gyfer wedi iddo ddod i ben ym mis Mawrth 2027. Mae hyn yn cynnwys ein dull gweithredu arfaethedig ac yn ystyried ei effaith ar fforddiadwyedd, cynaliadwyedd ariannol ac effeithlonrwydd. Yn benodol, mae paragraffau 3.8 – 3.15 yn ystyried effaith dileu'r cap ac mae paragraffau 3.19 – 3.37 yn ystyried effaith ein cynnig i ymestyn y cap am flwyddyn.
- 2.57 Mae Adran 108 o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 yn nodi dyletswydd Ofcom i ystyried pa mor ddymunol yw hyrwyddo twf economaidd wrth arfer ei swyddogaethau rheoleiddio. Er mwyn ystyried hyrwyddo twf economaidd, bydd Ofcom yn arfer ei swyddogaethau rheoleiddio mewn ffordd sy'n sicrhau bod camau rheoleiddio'n cael eu cymryd dim ond pan fydd eu hangen a bod unrhyw gamau a gymerir yn gymesur. Wrth asesu effaith ein cynigion yn Adran 3, rydym wedi ystyried ffactorau allweddol perthnasol sy'n sbarduno twf economaidd, gan gynnwys arloesi, cystadleuaeth, effeithlonrwydd a chynhyrchiant, a masnach.⁸⁵
- 2.58 Wrth ymgymryd â'n swyddogaethau post, mae'n ofynnol i ni ystyried Datganiad Blaenoriaethau Strategol (SSP) y Llywodraeth a ddynodwyd ar 27 Ebrill 2026 ("SSP 2026").⁸⁶ Rydym o'r farn bod y gwaith hwn a'n cynnig yn cyd-fynd â Blaenoriaeth Strategol 5: Cefnogi twf drwy wasanaethau post gwydn a chynaliadwy. Rydym o'r un farn â'r Llywodraeth ynglŷn â phwysigrwydd darparu gwasanaeth post cyffredinol sy'n diwallu anghenion defnyddwyr ac sy'n fforddiadwy, yn effeithlon ac yn gynaliadwy yn ariannol mewn marchnad bost agored a chystadleuol. Rydym wedi ystyried yr SSP wrth asesu effaith ein cynigion yn Adran 3.

Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

- 2.59 Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("Deddf 2010") yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig canlynol: oedran; anabled; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae Deddf 2010 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw dyladwy i'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno.
- 2.60 Mae Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 ("Deddf 1998") yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau sy'n ymwneud â Gogledd Iwerddon, i roi sylw dyledus i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal ac ystyried pa mor ddymunol yw hyrwyddo cysylltiadau da ar draws ystod o gategoriâu a amlinellir yn Neddf 1998. Mae Cynllun

⁸⁴ Gweler [canllawiau asesu effaith](#)

⁸⁵ Gweler [Canllawiau ar y Ddyletswydd Twf](#).

⁸⁶ Yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg. 30 Ebrill 2026. [Datganiad Blaenoriaethau Strategol ar gyfer telegyfathrebiadau, rheoli sbectrwm radio, a gwasanaethau post - GOV.UK](#). Cyrchwyd 5 Hydref 2026.

Cydraddoldeb Diwygiedig Gogledd Iwerddon Ofcom yn egluro sut rydym yn cydymffurfio â'n dyletswyddau statudol o dan Ddeddf 1998.⁸⁷

- 2.61 Er mwyn ein helpu i gydymffurfio â'n dyletswyddau o dan Ddeddf 2010 a Deddf 1998, rydym yn asesu effaith ein cynigion ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig ac, yn benodol, a allant wahaniaethu yn erbyn pobl o'r fath neu effeithio ar gyfle cyfartal neu gysylltiadau da.
- 2.62 Wrth feddwl am gydraddoldeb, rydym yn meddwl yn fwy eang na phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a nodir mewn deddfwriaeth cydraddoldeb, ac yn meddwl am yr effeithiau posibl ar wahanol grwpiau o bobl (gweler paragraff 4.7 yn ein canllawiau ar asesu effaith).⁸⁸
- 2.63 Yn benodol, mae adran 3(4) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni roi sylw i anghenion a buddiannau grwpiau penodol o bobl wrth gyflawni ein dyletswyddau, fel y bo'n berthnasol dan yr amgylchiadau yn ein tyb ni. Mae'r rhain yn cynnwys:
- pa mor agored i niwed yw plant a phobl eraill y mae eu hamgylchiadau, yn ein barn ni, yn golygu bod angen gwarchodaeth arbennig arnynt;
 - anghenion pobl anabl, pobl hŷn a phobl sydd ar incwm isel; a
 - gwahanol fuddiannau pobl mewn gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig, y gwahanol gymunedau ethnig yn y Deyrnas Unedig a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.
- 2.64 Rydym yn edrych ar yr effaith y mae ein polisi'n debygol o'i chael ar bobl, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau personol. Mae hyn hefyd yn ein helpu i wneud yn siŵr ein bod yn cyflawni ein prif ddyletswydd o hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, waeth beth fo'u cefndir a'u hunaniaeth.

Ein Hasesiad dros dro o'r Effaith ar Gydraddoldeb

- 2.65 Rydym wedi cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb mewn perthynas â'n cynnig i gadw'r cap prisiau manwerthu presennol ar gyfer llythyrau mawr a safonol Ail Ddosbarth am flwyddyn, hyd at 31 Mawrth 2028.
- 2.66 Fel y nodir ym mharagraffau 2.29 – 2.34 uchod, mae ein dull hanesyddol o asesu fforddiadwyedd a'n crynodeb diweddaraf o'r dystiolaeth hon wedi gweld yn gyson nad yw'r rhan fwyaf o bobl yn dioddef niwed sylweddol oherwydd prisiau postio, a bod y prisiau yn fforddiadwy i'r rhan fwyaf o bobl.⁸⁹ Er enghraifft, mae ein dadansoddiad wedi dangos y canlynol yn rheolaidd:
- a) mae'r gwariant cyfartalog ar bost yn dal yn isel iawn ac yn gyfran fach o incwm gwario pobl, hyd yn oed wrth ystyried patrymau defnyddio gwahanol a lefelau incwm gwahanol.
 - b) mae rhai pobl o bosibl yn fwy dibynnol ar wasanaethau post, ond yw'r rhan fwyaf yn tueddu i'w defnyddio'n amlach na'r cyfartaledd.⁹⁰ Felly, er bod yn rhaid i bobl o'r fath

⁸⁷ Ofcom, Rhagfyr 2019: [Cynllun Cydraddoldeb Diwygiedig Gogledd Iwerddon ar gyfer Ofcom](#)

⁸⁸ Ofcom, Gorffennaf 2023: [Canllawiau Asesu Effaith](#)

⁸⁹ Ofcom, 2024. [Datganiad: Adolygiad o gap diogelu Ail Ddosbarth](#), tt.85-86; Ofcom, 2025. [Cais am fewnbwn: Adolygiad o reoleiddio'r gwasanaeth post – prisiau a fforddiadwyedd](#), t.25, paragraff, 3.53.

⁹⁰ Gweler, er enghraifft, ganfyddiadau'r [Traciwr Post Preswyl](#) fod pobl sydd ar yr incwm isaf, pobl nad ydynt yn gweithio, pobl ar fudd-daliadau a phobl hŷn (65 oed a hŷn) yn fwy tebygol o ddweud nad ydynt wedi anfon unrhyw eitemau drwy'r post yn ystod y mis diwethaf. Canfu hefyd fod pobl mewn ardaloedd gwledig (gan gynnwys ardaloedd gwledig anghysbell) yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddweud eu bod wedi anfon eitem drwy'r post yn ystod y mis diwethaf. CG1:Yn fras, faint o'r canlynol ydych chi wedi'u hanfon fis yma? Bydd data'r traciwr post arferol ar gael ym mis Hydref 2026.

ddefnyddio gwasanaethau post, nid yw hynny'n golygu eu bod yn gwario mwy ar y gwasanaethau hyn na'u bod yn wynebu mwy o broblemau fforddiadwyedd na'r defnyddiwr cyffredin.

- 2.67 Fodd bynnag, rydym wedi cydnabod yn gyson y gallai cyfran fach o bobl fod yn fwy tebygol o wynebu problemau o ran fforddiadwyedd. Mae problemau o ran fforddio postio fel arfer yn gysylltiedig ag amrywiaeth o ffactorau, fel y sefyllfa economaidd gyffredinol, amgylchiadau personol, ac amllder defnyddio'r post. Mae ein tystiolaeth yn awgrymu bod y rheini sy'n debygol o wynebu problemau fforddiadwyedd y post ar hyn o bryd fel arfer ar incwm isel a/neu mewn grŵp agored i niwed, er enghraifft y rheini sy'n cael budd-daliadau'r wladwriaeth, y rheini nad ydynt yn gallu gadael cartref heb gymorth, a'r rheini sydd â chyflwr sy'n effeithio neu'n cyfyngu arnynt, gyda'r rhai ar incwm is yn fwy tebygol o fod yn agored i niwed mewn perthynas â phrisiau postio uwch.^{91 92}
- 2.68 Byddai ein cynnig yn cadw fframwaith presennol y cap diogelu am gyfnod byr. Felly, byddai defnyddwyr post yn parhau i elwa o'r mesurau diogelu fforddiadwyedd a sefydlwyd drwy adolygiad 2024. Byddai'r cynnig yn cefnogi mynediad parhaus at wasanaeth post cyffredinol fforddiadwy sylfaenol wrth i ni ystyried fframwaith prisio tymor hwy priodol.⁹³ Yn anad dim, byddai'r cynnig yn parhau i gyfyngu ar godi prisiau ar gyfer llythyrau safonol a llythyrau mawr Ail Ddosbarth i CPI.
- 2.69 Rydym o'r farn bod ein cynnig yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng sicrhau bod y gwasanaeth post cyffredinol yn fforddiadwy, ei fod yn gynaliadwy yn ariannol, a bod y Post Brenhinol yn dal i gael ei gymell i weithredu'n effeithlon. At ei gilydd, rydym o'r farn bod ein cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar grwpiau sy'n fwy tebygol o wynebu problemau o ran fforddio gwasanaethau post, gan gynnwys y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig, o'i gymharu â'r sefyllfa heb yr ymyriad a heb unrhyw fesurau diogelu fforddiadwyedd eraill.

Cwestiwn 2.1

Ydych chi'n cytuno â'r casgliadau dros dro a nodir yn ein Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb? Rhowch eich rhesymau a thystiolaeth i gefnogi'ch safbwyntiau.

Asesiad o'r effaith ar y Gymraeg

- 2.70 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gwneud y Gymraeg yn iaith sy'n cael ei chydabod yn swyddogol yng Nghymru. Arweiniodd y ddeddfwriaeth hon hefyd at sefydlu swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, sy'n rheoleiddio ac yn monitro ein gwaith. Mae'n rhaid i Ofcom ystyried y Gymraeg wrth lunio, adolygu neu ddiwygio polisiau sy'n berthnasol i Gymru (gan gynnwys penderfyniadau nad ydynt wedi'u targedu at Gymru'n benodol ond sydd o ddiddordeb ledled y DU).
- 2.71 Os yw Safonau'r Gymraeg yn berthnasol, rydym yn ystyried effaith bosib cynnig polisi ar (i) y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rydym hefyd yn ystyried sut byddai modd llunio cynnig er mwyn iddo gael neu

⁹¹ Er enghraifft, Ofcom, 2025. [Cais am fewnbwn: Adolygiad o reoleiddio'r gwasanaeth post – prisiau a fforddiadwyedd](#), tt.17-18, paragraffau 3.13-3.14, paragraffau 3.53 – 3.55 a tt 25 - 26. [Traciwr Post Preswyl 2024-25](#), QG2.

⁹² Ofcom, 2024. [Adolygiad o gapiau diogelu Ail Ddosbarth 2024; penderfyniad ar gapiau diogelu prisiau ar gyfer gwasanaethau cyffredinol Ail Ddosbarth](#), paragraff 5.34 a pharagraffau 7.74 – 7.75.

⁹³ Ofcom, 2024. [Datganiad: Adolygiad o gapiau diogelu Ail Ddosbarth](#).

gynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau niweidiol neu beidio â chael unrhyw effaith niweidiol.

- 2.72 Rydym wedi ystyried yr effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a phheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth lunio ein cynigion. Ein barn dros dro yw na fyddai ein cynigion yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ac na fyddent yn cael effeithiau niweidiol
- 2.73 Mae'r cynigion rydym yn ymgynghori yn eu cylch yn ceisio sicrhau bod pobl ar draws y DU yn gallu parhau i ddefnyddio gwasanaethau sy'n dal yn fforddiadwy i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr, sy'n debygol o gael effaith gadarnhaol ar siaradwyr Cymraeg sy'n dymuno cyfathrebu yn Gymraeg drwy'r dull hwn (llythyrau'n unig).
- 2.74 Rydym yn croesawu ymatebion i unrhyw effeithiau posibl sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

Cwestiwn 2.2

Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o dan Safonau'r Gymraeg? Rhowch eich rhesymau a thystiolaeth i gefnogi'ch safbwyntiau.

3. Dull gweithredu o ran y cap prisiau ar lythyrau Ail Ddosbarth

Mae'r adran hon yn nodi ein barn ynghylch y cap diogelu presennol a'r opsiynau ar ei gyfer wedi iddo ddod i ben ym mis Mawrth 2027. Mae hyn yn cynnwys ein dull gweithredu arfaethedig ac yn ystyried ei effaith ar fforddiadwyedd, cynaliadwyedd ariannol ac effeithlonrwydd.

Cyflwyniad

- 3.1 Ym mis Ionawr 2024, fe wnaethom osod y cap diogelu presennol am dair blynedd. Yn 2025, yn dilyn ein penderfyniad ar ddiwygio'r USO, fe wnaethom ddechrau gwaith ehangach ar ddyfodol y gwasanaeth cyffredinol a phrisiau'r gwasanaeth post. Ym mis Tachwedd 2025 fe wnaethom gyhoeddi Cais am Fewnbwn gyda'r nod o osod dull newydd hirdymor o brisio a fyddai'n dod i rym o fis Ebrill 2027 ymlaen.⁹⁴
- 3.2 Mae angen dull tymor hwy o brisio i ddiogelu cynaliadwyedd y gwasanaeth cyffredinol am gyn hired â phosibl, gan sicrhau bod pobl yn parhau i allu cael mynediad fforddiadwy at y gwasanaeth post. Bydd yn rhoi mwy o sicrwydd i'r Post Brenhinol, fel y darparwr cyffredinol, a fydd yn ei alluogi i gynllunio sut mae rhedeg ei fusnes yn fwy effeithiol, wrth iddo ymateb i'r gostyngiad yn y galw am lythyrau, ac felly diogelu'r gwasanaeth cyffredinol.
- 3.3 Mae amrywiaeth eang o safbwyntiau gwahanol ymysg rhanddeiliaid ynglŷn â sut i fynd ati i brisio. Er enghraifft, mae'r Post Brenhinol o'r farn nad oes angen rheolaethau ar brisiau, yn rhannol oherwydd eu bod yn cyfyngu'n ormodol ar brisiau ar gyfer gwasanaethau llythyrau nad ydynt yn rhai USO.⁹⁵ Mae rhanddeiliaid eraill o'r farn y dylid cyflwyno rhagor o reolaethau ar brisiau ar lefel cyfanwerthu a manwerthu, ac y dylai unrhyw gynnydd mewn prisiau fod yn amodol ar welliannau mewn perfformiad ansawdd gwasanaeth.⁹⁶ Byddem yn ystyried yr holl opsiynau a gyflwynir i ni fel rhan o'r gwaith o bennu dull hirdymor o brisio.
- 3.4 Fodd bynnag, er mwyn pennu dull tymor hwy o brisio cynnyrch gwasanaeth cyffredinol y Post Brenhinol mae'n rhaid i ni gael darlun cliriach o gynaliadwyedd yr USO a gallu'r Post Brenhinol i ddarparu'r gwasanaeth y mae'n rhaid iddo ei ddarparu. Yn ein tyb ni, fel y nodir yn 2.35 – 2.53, nid oes gennym ddarlun clir ar hyn o bryd gan fod y Post Brenhinol yn dal wrthi'n gweithredu DM 26 ar draws ei swyddfeydd danfon ac yn cyflawni ei gynllun gwella ansawdd gwasanaeth. Disgwylir i'r newidiadau hyn effeithio ar gostau, sefyllfa ariannol a pherfformiad gwasanaeth y Post Brenhinol. Mae lefel y budd y mae'r Post Brenhinol yn ei chael o'i waith diwygio presennol yn effeithio ar y risg i gynaliadwyedd ariannol a sut y gallai fod angen i brisiau godi yn y dyfodol. Mae angen pwyso a mesur effeithiau o'r fath, ochr yn

⁹⁴ Ofcom, 2024. [Datganiad: Adolygiad o gapiau diogelu Ail Ddosbarth 2024](#). Ofcom, 2025. [Cais am fewnbwn: Adolygiad o reoleiddio'r gwasanaeth post – prisiau a fforddiadwyedd](#)

⁹⁵ Y Post Brenhinol, 2025. [Ymateb i'r Cais am Fewnbwn](#), tt.20-21

⁹⁶ Manylion yn Adran 2, paragraff 2.37-2.39. Mae ymatebion i'n Cais am Fewnbwn ar gael ar ein [gwefan](#).

ochr â phryderon am fforddiadwyedd, wrth benderfynu ar ein dull hirdymor o brisio.⁹⁷ Fodd bynnag, nid yw'n sicr ar hyn o bryd a fydd DM26 yn arwain at yr amcangyfrif o £300m o arbedion cost neu welliant parhaus i ansawdd y gwasanaeth.⁹⁸

- 3.5 Credwn fod angen i ni ddisgwyl i'r Post Brenhinol wneud mwy o gynnydd fel bod gennym sylfaen dystiolaeth gliriach i seilio ein dull gweithredu hirdymor arni. Er bod gennym wybodaeth am gyflwyno DM26, ac fe fyddwn yn cael rhagor o wybodaeth am hynny ac unrhyw arbedion cost cysylltiedig a gwelliannau i ansawdd gwasanaethau, nid ydym yn credu y bydd gennym sylfaen dystiolaeth ddigon dibynadwy a sefydlog nes bydd DM26 wedi cael ei gyflwyno'n helaeth ledled y DU ac wedi bod ar waith mewn swyddfeydd danfon am gyfnod. Yn ymarferol, nid oes digon o amser i gael y sylfaen dystiolaeth hon a chynnal proses bolisi briodol cyn i'r cap presennol ddod i ben ym mis Mawrth 2027.
- 3.6 O ystyried y sefyllfa hon, rydym wedi edrych ar beth fyddai'r dull mwyaf priodol i'w ddefnyddio rhwng yr adeg y bydd y cap diogelu yn dod i ben ym mis Mawrth 2027 a'r adeg pan fydd yr wybodaeth berthnasol ar gael i ni wneud penderfyniad ar sail tystiolaeth ynghylch rheoleiddio prisiau yn y dyfodol. Rydym yn amcangyfrif y bydd y cyfnod interim hwn yn para tua blwyddyn.
- 3.7 Yn yr adrannau sy'n dilyn rydym yn ystyried dau opsiwn ar gyfer sut i fwrw ymlaen yn ystod y cyfnod interim hwn: 1) caniatáu i'r cap diogelu ddod i ben ym mis Mawrth 2027, neu 2) cynnal y cap diogelu presennol yn cynyddu gyda CPI am gyfnod interim.

Tynnu'r cap

- 3.8 Un opsiwn sydd ar gael i ni fyddai caniatáu i'r cap diogelu presennol ddod i ben ddiwedd mis Mawrth 2027, fel na fyddai cap ar brisiau cynnyrch llythyrau gwasanaeth cyffredinol. Ein barn dros dro yw na fyddai hyn yn briodol.
- 3.9 Mae'r cap diogelu wedi bod yn rhan o'r fframwaith rheoleiddio gwasanaethau post ers 2012, gyda'r nod o roi digon o hyblygrwydd prisio i'r Post Brenhinol barhau i ddarparu gwasanaethau ar sail gynaliadwy ar yr un pryd â sicrhau bod gwasanaeth cyffredinol fforddiadwy sylfaenol yn cael ei gynnig i bawb.⁹⁹
- 3.10 Mae'r cap wedi esblygu dros amser, yn fwyaf diweddar yn 2024, pan wnaethom dynnu parseli Ail Ddosbarth, gan fod pwysau cystadleuol yn cyfyngu ar brisiau ac yn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn fforddiadwy.
- 3.11 Fodd bynnag, yn ein hadolygiad yn 2024 fe wnaethom gadw cap diogelu ar wasanaethau llythyrau Ail Ddosbarth y Post Brenhinol oherwydd cyfyngiadau cystadleuol cyfyngedig ar brisiau llythyrau mawr a safonol Ail Ddosbarth y Post Brenhinol.¹⁰⁰ Mae'r amgylchiadau hyn wedi aros fwy neu lai yr un fath. Mae'r Post Brenhinol yn parhau i fod yr unig ddarparwr gwasanaeth danfon llythyrau cyffredinol o un pen o'r wlad i'r llall ac mae'n wynebu

⁹⁷ Ofcom 2025. [Datganiad: Adolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol a rheoleiddio'r gwasanaeth post](#), tt.77-78. Gwnaethom bwysleisio na fydd diwygio'r gwasanaeth cyffredinol yn unig yn ateb heriau gweithredol ac ariannol ehangach y Post Brenhinol, ac mae angen i'r busnes gymryd camau pellach.

⁹⁸ Mae'r Post Brenhinol wedi dweud bod cyrraedd targedau ansawdd gwasanaeth yn dibynnu ar gyflwyno DM26. [Royal Mail-QoS-Improvement-Plan-FINAL.pdf](#)

⁹⁹ Roeddem yn teimlo na fyddai rheolaethau prisiau na thargedau effeithlonrwydd yn arwain at ganlyniadau gwell yng nghyd-destun gostyngiad yn nifer y llythyrau, a byddai'n gwneud heriau cynaliadwyedd yn fwy. Gweler Adran 2, paragraffau 2.19 – 2.33 i gael rhagor o fanylion.

¹⁰⁰ Ofcom, 2024. [Datganiad: Adolygiad o gap diogelu Ail Ddosbarth](#), t.100.

cyfyngiadau cystadleuol cyfyngedig o ran darparu gwasanaethau llythyrau un eitem. Nid ydym wedi gweld tystiolaeth o newidiadau sylweddol yn strwythur y farchnad, nac o gystadleuaeth yn dod i'r amlwg, a fyddai'n debygol o gyfyngu ar brisiau'r Post Brenhinol ar gyfer y gwasanaethau hyn yn y dyfodol agos.

- 3.12 Mae ein hasesiadau fforddiadwyedd blaenorol wedi canfod yn gyson bod prisiau post yn fforddiadwy i'r rhan fwyaf o bobl a bod gwariant ar wasanaethau post yn dal yn gyfran fach iawn o wariant aelwydydd. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod y gallai cyfran fach o bobl fod yn fwy tebygol o wynebu problemau fforddiadwyedd, gyda'r rhai ar incwm is yn fwy tebygol nag eraill o fod yn agored i niwed mewn perthynas â phrisiau postio uwch. Heb unrhyw gap diogelu na diogelwch fforddiadwyedd amgen, gallai fforddiadwyedd i'r bobl hyn fod mewn perygl pe bai prisiau'n cynyddu'n sylweddol.
- 3.13 Heb unrhyw gyfyngiad prisio mae risg ehangach hefyd y gallai'r Post Brenhinol arfer ei bŵer yn y farchnad mewn ffordd sy'n arwain at brisiau sy'n uwch nag y byddir yn eu gweld fel arall. Er bod gan y Post Brenhinol gymhellion masnachol i gynnal niferoedd ac osgoi cyflymu'r gostyngiad yn y defnydd o lythyrau, nid yw'r cymhellion hyn yn darparu'r un lefel o amddiffyniad i ddefnyddwyr â mesur diogelu rheoleiddiol. O ystyried sefyllfa fonopoli'r Post Brenhinol o ran darparu gwasanaethau llythyrau cyffredinol, ac nad oes amddiffyniad fforddiadwyedd amgen megis cynllun disgownt wedi'i dargedu ar waith, rydym o'r farn bod angen rhyw fath o gap ar brisiau o hyd.
- 3.14 Credwn hefyd ei fod yn berthnasol bod perfformiad ansawdd gwasanaeth y Post Brenhinol wedi aros yn llawer iawn is na'i dargedau rheoleiddio dros y blynyddoedd diwethaf. Er bod y Post Brenhinol yn rhoi newidiadau gweithredol mawr ar waith, a'i fod wedi cyhoeddi cynlluniau sydd â'r bwriad o wella ansawdd gwasanaethau, mae canlyniadau'r cynlluniau hyn yn dal yn ansicr. Yn yr amgylchiadau hyn, nid ydym yn teimlo ei bod yn briodol cael gwared ar yr holl gyfyngiadau ar brisiau, tra bo cwsmeriaid ddim yn cael y gwasanaeth y mae'n ofynnol iddynt ei gael ar hyn o bryd, cyn bod tystiolaeth gliriach bod perfformiad gwasanaethau wedi gwella a bod y diwygiadau ehangach yn cyflawni'r manteision a fwriadwyd.
- 3.15 Am y rhesymau hyn, ein barn dros dro yw y byddai caniatáu i'r cap diogelu ddod i ben ym mis Mawrth 2027 yn golygu bod defnyddwyr post yn agored i risgiau diangen ac ni fyddai'n taro'r cydbwysedd priodol rhwng fforddiadwyedd, cynaliadwyedd ariannol ac effeithlonrwydd. Er ein bod o'r farn bod hyn yn berthnasol i'r cyfnod interim, byddai unrhyw asesiad yn y dyfodol o'r cap diogelu a'r prisiau yn y tymor hir yn ystyried a ddylid dileu'r cap.
- 3.16 Trown ein sylw nawr at ystyried yr opsiwn o gynnal y cap diogelu presennol dros dro tra byddwn yn parhau â'n hadolygiad ehangach o brisiau a fforddiadwyedd ac asesu effaith diwygiadau diweddar.

Yr hyn rydym yn ei gynnig

- 3.17 Yn ein barn dros dro, parhau â'r cap presennol dros dro (h.y. dim ond caniatáu i brisiau godi yn unol â CPI) yw'r dull mwyaf priodol. Mae'n gwarchod mesurau diogelu fforddiadwyedd ar gyfer defnyddwyr post ar yr un pryd â chaniatáu amser i dystiolaeth ddod i'r amlwg ar effeithiau diwygio'r USO, gwella ansawdd gwasanaeth, perfformiad ariannol y Post Brenhinol, ac unrhyw ddatblygiad gan y Post Brenhinol o ran mesurau fforddiadwyedd wedi'u targedu. Rydym yn disgwyl y bydd y dystiolaeth hon yn ein rhoi mewn sefyllfa llawer gwell i benderfynu a oes angen cap tymor hwy, ac os felly, ar ba ffurf y dylai fod.

- 3.18 Felly, rydym nawr yn ystyried effaith ein cynnig i ymestyn y cap presennol am gyfnod byr ar ddefnyddwyr y post ac ar gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol. Wrth wneud hynny, rydym wedi ystyried sut mae'r cynigion hyn yn effeithio ar fforddiadwyedd, cynaliadwyedd ariannol, a chymhellion ar gyfer effeithlonrwydd.

Fforddiadwyedd

- 3.19 Prif bwrpas y cap diogelu yw helpu i sicrhau bod pobl yn parhau i gael mynediad at wasanaeth post cyffredinol sylfaenol fforddiadwy.
- 3.20 Byddai ein cynnig yn cadw fframwaith presennol y cap diogelu am gyfnod byr. Felly, byddai defnyddwyr post yn parhau i elwa o'r mesurau diogelu fforddiadwyedd a sefydlwyd drwy adolygiad 2024. Yn anad dim, byddai'r cynnig yn parhau i gyfyngu ar godi prisiau ar gyfer llythyrau safonol a llythyrau mawr Ail Ddosbarth i CPI.
- 3.21 Rydym yn parhau i ystyried bod gwasanaethau llythyrau Ail Ddosbarth yn chwarae rhan bwysig o ran sicrhau mynediad at wasanaeth post cyffredinol sylfaenol fforddiadwy. Er bod y dystiolaeth bresennol yn awgrymu bod prisiau'n dal yn fforddiadwy i'r rhan fwyaf o bobl, gallai dileu'r cap yn gyfan gwbl arwain at bryderon ynghylch fforddiadwyedd yn absenoldeb unrhyw fesurau diogelu eraill. Ar y llaw arall, byddai cynnal y cap yn sicrhau fforddiadwyedd ar gyfer cyfnod yr estyniad.
- 3.22 Felly, ein barn dros dro yw y byddai ymestyn y cap diogelu presennol yn y tymor byr yn cefnogi mynediad parhaus at wasanaeth post cyffredinol fforddiadwy sylfaenol wrth i ni ystyried fframwaith prisio tymor hwy priodol.

Effaith ar gynaliadwyedd ariannol

- 3.23 Yn Adran 2 (paragraffau 2.9 – 2.19) eglurwn fod y dirywiad strwythurol yn y farchnad llythyrau yn cyflwyno her sylweddol i economeg y gwasanaeth cyffredinol a sefyllfa ariannol y Post Brenhinol. Mae'r cwmni wedi adrodd ynghylch colledion sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae hynny'n rhoi cynaliadwyedd y gwasanaeth cyffredinol mewn perygl. ^{101 102} Mae'r cyd-destun heriol hwn yn golygu bod perfformiad ariannol y Post Brenhinol wedi bod yn wan ers rhai blynyddoedd, gan weithredu o dan y lefel sy'n debygol o fod yn gyson â chynaliadwyedd ariannol hirdymor yn ein barn ni.

Effaith y cap diogelu presennol

- 3.24 Wrth ystyried effaith y cap, rydym wedi nodi dwy elfen allweddol i'w hystyried. Y cyntaf yw'r effaith uniongyrchol, neu'r effaith ar gostau a refeniw ar gyfer gwerthu gwasanaethau stamp i bobl.
- 3.25 Yr ail ydy'r effaith anuniongyrchol lle gall cap ar brisiau stampiau Ail Ddosbarth gyfyngu'n anuniongyrchol ar y prisiau y gall y Post Brenhinol eu codi am wasanaethau post swmp nad yw'n flaenoriaeth (fel post wedi'i ffrancio, post manwerthu a phost mynediad) sy'n cael eu gwerthu i fusnesau a chwmnïau mynediad. Cyfeirir at hyn fel yr effaith ysgol brisio. Er mai pris stampiau Ail Ddosbarth yw'r terfyn uchaf ar gyfer prisiau eraill drwy'r ysgol gyfan, mae nifer fawr o'r gwasanaethau hyn a bydd arwyddocâd y cyfyngiad yn dibynnu i raddau helaeth ar y dewisiadau y mae'r Post Brenhinol yn eu gwneud yn ei strategaeth brisio. Nid yw'r prisiau hyn yn cael eu

¹⁰¹ [Datganiadau Ariannol Rheoleiddiol y Post Brenhinol 2025-26, tudalen 3](#): Dim ond 5% o elw mae'r rhan o'r busnes sy'n cefnogi'r gwasanaeth cyffredinol wedi'i wneud mewn dwy flynedd ers preifateiddio yn 2013. Credwn mai dyma'r lefel sy'n dangos bod y gwasanaeth yn gynaliadwy yn ariannol yn y tymor hir. Cyrhaeddwyd y lefel honno ddiwethaf yn 2015/16 – tua deng mlynedd yn ôl.

¹⁰² Rydym yn ystyried bod maint EBIT o 5% i 10% yn ddangosydd cyntaf o ran a yw'r busnes yn ennill elw masnachol.

rheoleiddio i raddau helaeth, ac eithrio prisiau mynediad, ac mae angen eu darparu ar dermau telerau teg a rhesymol ac maent yn amodol ar reolaeth gwasgu elw.¹⁰³¹⁰⁴

- 3.26 Rydym wedi asesu effaith ariannol debygol ymestyn y cap diogelu Ail Ddosbarth presennol am flwyddyn ychwanegol o'i gymharu ag achos lle mae'r cap yn dod i ben a lle mae gan y Post Brenhinol ryddid prisio mewn perthynas â'i gynnyrch Ail Ddosbarth. Byddem yn disgwyl, drwy ymestyn y cap am flwyddyn, o'i gymharu â gadael iddo ddod i ben, y byddai'r Post Brenhinol yn sicrhau refeniw net is ac y byddai hyn yn cyfrannu at bwysau o ran cynaliadwyedd ariannol, a hynny o bosibl yn sylweddol.
- 3.27 Nid ydym yn gwybod yn union pa benderfyniadau prisio y byddai'r Post Brenhinol yn eu gwneud yn y senario amgen hwn. Fodd bynnag, bu'n bosibl i ni wneud amcangyfrifon gwybodus o'r effaith bosibl, ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan y Post Brenhinol a'n barn ein hunain. O ystyried yr ansicrwydd ynghylch penderfyniadau prisio a'r ymateb posibl o ran galw i newidiadau mewn prisiau, gan gynnwys rhwng cynnyrch, rydym yn cyflwyno'r effaith a amcangyfrifwn fel ystod yn hytrach nag amcangyfrif o un pwynt yn unig. Mae ein hamcangyfrif yn ystyried yr effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol a drafodir uchod.
- 3.28 Rydym yn amcangyfrif mai effaith gyffredinol ymestyn y cap diogelu presennol am flwyddyn fyddai cyfyngu refeniw y Post Brenhinol yn 2027/28 o'i gymharu â sefyllfa lle mae'r cap yn cael ei ddileu.¹⁰⁵ Byddem yn disgwyl i'r effaith gynyddu'n sylweddol ym mhob blwyddyn ddilynol wrth i'r cyfyngiad anuniongyrchol a osodir ar yr ysgol brisio ddod yn fwy rhwymol. Ar y llaw arall, pe bai'r gymhariaeth yn cael ei gwneud yn erbyn cap diogelu uwch, yn hytrach na'i ddileu'n gyfan gwbl, byddai effaith cadw cap gyda chynnydd yn unol â'r CPI am flwyddyn yn llai.

Hyd y cap diogelu

- 3.29 Rydym wedi egluro uchod ein bod i) am weld y Post Brenhinol yn gweithredu rhai o'r newidiadau a wnaed i'r USO er mwyn deall maint unrhyw arbedion cost ac ii) bod y cap presennol yn dechrau cyfyngu'n sylweddol ar hyblygrwydd prisio'r Post Brenhinol. Mae'r ddau yn ffactorau perthnasol wrth bennu hyd unrhyw estyniad posibl.
- 3.30 Pe baem yn ymestyn y cap presennol am gyfnod sy'n rhy fyr, efallai na fyddai hynny'n helpu i ddileu'r ansicrwydd sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd ynghylch perfformiad y Post Brenhinol yn y dyfodol. Yn ymarferol, ni fyddem mewn sefyllfa well nag yr ydym ynddi ar hyn o bryd i wneud penderfyniad gwybodus am reoleiddio prisiau yn y tymor hir.

¹⁰³ Ofcom (2026). Anghydfod rhwng y Mail Competition Forum a Royal Mail ynghylch y codiadau prisiau a hysbyswyd ar gyfer gwasanaethau mynediad. Cyrchwyd ar 5 Hydref 2026.

¹⁰⁴ Nodwn fod llawer o gwmnïau mynediad wedi dadlau y dylai prisiau mynediad fod yn destun rheolaethau prisiau ac y dylid newid y prawf gwasgu elw. Byddwn yn ystyried y materion hyn yn ein gwaith pellach ar brisio.

¹⁰⁵ Amcangyfrifwyd yr effaith hon drwy ddefnyddio modelu senarios sy'n cymharu estyniad o flwyddyn i'r cap diogelu presennol â senario gwrthfactual lle caiff y cap ei ddileu o 1 Ebrill 2027. Mae'r modelu yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan Royal Mail, gan gynnwys gwybodaeth ar lefel cynnyrch am brisiau a chyfaint ["], ac yn amcangyfrif y refeniw sy'n deillio o hynny ar gyfer cynhyrchion a ddiogelir a chynhyrchion llythyrau cysylltiedig y mae'r gris brisio a'r amnewid rhyngddynt yn effeithio arnynt. Rydym wedi cymhwyso rhagdybiaethau Ofcom at hyn, gan gynnwys ynghylch y prisiau y gallai Royal Mail eu pennu yn absenoldeb y cap, ymateb y galw i newidiadau mewn prisiau, a'r graddau y byddai cwsmeriaid yn newid rhwng cynhyrchion. Mae union effaith y cynnig yn ansicr gan ei bod yn dibynnu'n sylweddol ar benderfyniadau prisio Royal Mail yn y dyfodol ac ar ymatebion cwsmeriaid, ac felly rydym wedi cyflwyno'r effaith fel ystod..

- 3.31 I'r gwrthwyneb, mae estyniad tymor hwy yn peryglu y bydd y costau i'r Post Brenhinol o ran dyluniad a lefel bresennol y cap yn cynyddu'n sylweddol ac yn effeithio ar gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol.
- 3.32 Fel yr ydym wedi nodi uchod, nid ydym yn ystyried mai gadael i'r cap ddod i ben yw'r dull cywir ar hyn o bryd. Rydym hefyd o'r farn bod gormod o ansicrwydd ynghlwm wrth bennu cap tymor hwy ar y cam hwn. Felly, rydym o'r farn bod ymestyn y trefniadau presennol am flwyddyn, gan gynnal y dyluniad presennol a chaniatáu i'r fasged cap diogelu gynyddu o ddim mwy na'r CPI tan 31 Mawrth 2028, yn cynrychioli dull cymesur a chytbwys. Er ein bod yn cydnabod bod cost y cyfnod byr hwn o ymestyn y trefniadau i Royal Mail, o ran yr amcangyfrif o reffeniw a gollir, yn sylweddol, credwn ei bod ar raddfa ac o fewn amserlen gyfyngedig sy'n golygu bod y risg y byddai'n bygwth hyfywedd ariannol Royal Mail yn isel. Rydym hefyd o'r farn y byddai gallu darparu fframwaith prisio tymor hwy yn dilyn y cyfnod interim hwn yn cefnogi cynaliadwyedd ariannol. Felly, o ystyried y rhesymau a nodwyd gennym uchod dros beidio â dileu'r cap diogelu, rydym o'r farn bod estyniad byr iddo yn gymesur o dan yr amgylchiadau presennol.

Effeithlonrwydd

- 3.33 Fel rhan o'n dyletswyddau, rhaid i ni roi sylw i'r angen bod darparu gwasanaeth post cyffredinol yn effeithlon. Wrth ystyried ein cynnig, rydym wedi asesu a fyddai estyniad tymor byr i'r cap diogelu presennol yn cael effaith sylweddol ar effeithlonrwydd y Post Brenhinol wrth ddarparu'r gwasanaeth cyffredinol.
- 3.34 Y penderfynydd mwyaf arwyddocaol o ran effeithlonrwydd yn y dyfodol yw gallu'r Post Brenhinol i weithredu'r newidiadau gweithredol sy'n gysylltiedig â diwygiadau diweddar i'r gwasanaeth cyffredinol, gan gynnwys cyflwyno ei fodel danfon newydd. Bwriad y newidiadau hyn yw galluogi'r Post Brenhinol i redeg ei rwydwaith yn fwy effeithlon a sicrhau bod ei weithrediadau'n cyd-fynd yn well â phatrymau galw sy'n newid. Bydd y graddau y bydd y manteision hyn yn cael eu gwireddu'n dibynnu'n bennaf ar weithrediad gweithredol y Post Brenhinol yn hytrach nag ar fodolaeth y cap diogelu.
- 3.35 Yn ein barn ni, byddai ymestyn y cap diogelu presennol am flwyddyn yn annhebygol o gael effaith sylweddol, yn gadarnhaol neu'n negyddol, ar effeithlonrwydd y Post Brenhinol o ran darparu'r gwasanaeth cyffredinol. Nid yw'r cynnig yn arwain at newid sylweddol i'r cymhellion sy'n wynebu'r Post Brenhinol yn y tymor byr. Ni fyddai ychwaith yn effeithio ar y diwygiadau gweithredol, y penderfyniadau buddsoddi na'r newidiadau i'r rhwydwaith y disgwylir iddynt sbarduno gwelliannau effeithlonrwydd dros y blynyddoedd nesaf.
- 3.36 Felly, rydym o'r farn bod ymestyn y cap diogelu presennol am flwyddyn arall yn cyd-fynd â'n dyletswydd i ystyried effeithlonrwydd y gwasanaeth cyffredinol. Mae'r cynnig yn diogelu'r fframwaith rheoleiddio presennol. Mae hefyd yn caniatáu amser i dystiolaeth ddod i'r amlwg ynglŷn ag effeithiau rhaglen trawsnewid gweithredol y Post Brenhinol cyn i ni benderfynu ar unrhyw ddull tymor hwy o reoleiddio prisiau.

Casgliad

- 3.37 Fel yr esboniwyd uchod, mae angen i'r Post Brenhinol wneud mwy o gynnydd mewn perthynas â'i newidiadau gweithredol sylweddol cyn y gallwn gael sylfaen dystiolaeth ddigon clir i seilio ein dull gweithredu prisio hirdymor arni. Yn y cyd-destun hwnnw rydym wedi ystyried pa ddull y dylem ei ddefnyddio ar gyfer y cap presennol ar lythyrau Ail Ddosbarth, gan edrych ar y darlun cyfan o ran fforddiadwyedd, cynaliadwyedd ariannol ac

effeithlonrwydd. Ein barn dros dro yw mai ymestyn y cap diogelu presennol am flwyddyn yw'r ffordd fwyaf priodol ymlaen.

- 3.38 Byddai'r cynnig yn cynnal y mesurau diogelu fforddiadwyedd presennol ar gyfer defnyddwyr post. Er y byddai'n golygu cost sylweddol i Royal Mail, rydym o'r farn bod y risg y byddai'r gost honno'n tanseilio cynaliadwyedd y gwasanaeth cyffredinol yn ddifrifol yn cael ei lliniaru'n ddigonol gan natur tymor byr ein cynnig a'r ffordd y bydd yn ein helpu i ddatblygu fframwaith hirdymor.. Ar sail cynlluniau'r Post Brenhinol, rydym yn credu y dylai ymestyn y cap ganiatáu digon o amser i sylfaen dystiolaeth ddigon penodol ddod i'r amlwg fel bod modd pennu dull hirdymor o brisio.

Dyluniad y cap

- 3.39 Ar ôl cynnig y dylid ymestyn y cap diogelu yn y tymor byr, byddwn yn trafod y dyluniad nesaf. Ein barn dros dro yw na fyddai'n briodol gwneud newidiadau sylweddol i fframwaith presennol y cap diogelu ar hyn o bryd. Er bod datblygiadau pwysig ar y gweill, gan gynnwys diwygio'r USO a chyflawni cynllun gwella ansawdd gwasanaeth y Post Brenhinol, nid yw effeithiau llawn y newidiadau hyn yn hysbys eto. Felly, rydym yn credu mai estyniad cyfyngedig i'r trefniadau presennol yw'r dull gweithredu mwyaf priodol.
- 3.40 Yn yr un modd, rydym yn cynnig gwneud y canlynol:
- a) cadw dyluniad presennol y cap diogelu drwy barhau i osod cap diogelu basged ar gyfer gwasanaethau llythyrau mawr a safonol Ail Ddosbarth y Post Brenhinol;
 - b) cynnal lefel bresennol y cap diogelu, fel na fydd prisiau yn y fasged yn parhau i godi mwy na CPI; ac
 - c) ymestyn y cap diogelu am flwyddyn arall, tan 31 Mawrth 2028.
- 3.41 Wrth gynnig estyniad o flwyddyn ar gyfer y trefniadau presennol, nid ydym yn gwneud unrhyw benderfyniad ar ffurf na lefel briodol unrhyw reolaeth pris tymor hwy y tu hwnt i fis Mawrth 2028.

Profion cyfreithiol

- 3.42 Yn unol â pharagraff 4 o Atodlen 6 i Ddeddf Gwasanaethau Post 2011, gallwn roi cyfarwyddyd sy'n effeithio ar weithredu amod rheoleiddio dim ond os ydym yn fodlon bod y canlynol yn wir wrth wneud hynny:
- a) gellir cyfiawnhau hynny'n wrthrychol,
 - b) nid yw'n gwahaniaethu'n ormodol yn erbyn unigolion penodol neu yn erbyn disgrifiad penodol o unigolion,
 - c) mae'n gymesur â'r hyn y bwriedir iddynt ei gyflawni, ac
 - d) mae'n dryloyw mewn perthynas â'r hyn y bwriedir iddo ei gyflawni.
- 3.43 Rydym o'r farn bod ein cynnig i roi cyfarwyddyd o dan Amod 3 y DUSP ynghylch y prisiau y caniateir i'r Post Brenhinol eu codi am Lythyrau Mawr a Safonol Ail Ddosbarth yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2027 a 31 Mawrth 2028 yn bodloni'r profion hyn am y rhesymau canlynol:
- a) Rydym yn credu bod modd cyfiawnhau ein cynnig yn wrthrychol gan ei fod yn gwarchod mesurau diogelu fforddiadwyedd ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau llythyrau Ail Ddosbarth, tra bo'r Post Brenhinol yn dal i wynebu cyfyngiadau cystadleuol cyfyngedig, ar yr un pryd â chaniatáu amser ychwanegol i dystiolaeth ddod i'r amlwg ar effeithiau diwygio'r USO, gwella ansawdd gwasanaeth, perfformiad ariannol y Post Brenhinol, a datblygu unrhyw fesurau fforddiadwyedd wedi'u targedu. Mae'r estyniad hefyd yn

creu'r cyfle i ystyried yn fwy llawn ein dull hirdymor o brisio yng ngoleuni'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg.

- b) Rydym o'r farn nad yw ein cynnig yn gwahaniaethu'n ormodol gan mai dim ond ar y Post Brenhinol mae'n effeithio, ac mae hynny'n adlewyrchu ei sefyllfa unigryw fel darparwr y gwasanaeth post cyffredinol yn y DU.
- c) Rydym yn credu bod ein cynnig yn gymesur gan nad yw ond yn gosod gofynion ar y Post Brenhinol cyn belled ag y bo hynny'n briodol (drwy ymestyn y trefniadau presennol am flwyddyn yn unig) ac nid yw'n mynd y tu hwnt i'r hyn sy'n angenrheidiol i gyflawni ein hamcanion. Yn ein tyb ni rydym wedi taro'r cydbwysedd cywir rhwng sicrhau bod y gwasanaeth post cyffredinol yn fforddiadwy i ddefnyddwyr, ei fod yn gynaliadwy yn ariannol, a bod y Post Brenhinol yn dal i gael ei gymell i weithredu'n effeithlon.
- d) Credwn fod ein cynnig yn dryloyw gan ei fod yn nodi'n glir y rhwymedigaethau rydym yn bwriadu eu gosod ar y Post Brenhinol yn ei gapasiti fel y darparwr gwasanaeth cyffredinol dynodedig. Mae'r rhesymau dros ein cynnig i roi estyniad am flwyddyn wedi'u nodi yn yr ymgynghoriad hwn.

3.44 Wrth gynnig rhoi'r cyfarwyddyd, rydym yn credu ein bod wedi gweithredu yn unol â'n dyletswydd yn adran 29 o Ddeddf Gwasanaethau Post 2011 i gyflawni ein swyddogaethau post mewn ffordd a fydd, yn ein tyb ni, yn sicrhau bod gwasanaeth post cyffredinol yn cael ei ddarparu. Fe wnaethom roi sylw i'r angen bod darparu gwasanaeth post cyffredinol yn gynaliadwy yn ariannol ac yn effeithlon. Dyna pam mai dim ond estyniad byr a chyfyngedig a gynigiwyd gennym i'r trefniadau presennol ar gyfer y cap diogelu Ail Ddosbarth, gan nodi y byddai estyniad hirach yn cael mwy o effaith ar gynaliadwyedd ariannol y Post Brenhinol.

3.45 Gan ystyried yr effaith y gallai ein cynnig ei chael ar bobl, gan gynnwys defnyddwyr a allai fod yn agored i niwed, a'r Post Brenhinol, rydym hefyd o'r farn y bydd ein cynnig yn hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr yn unol â'n prif ddyletswydd a nodir yn adran 3 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

Cwestiwn 3.1

A ydych yn cytuno â'n cynnig i barhau â'r cap pris diogelu presennol ar lythyrau Ail Ddosbarth am flwyddyn ychwanegol, tan 31 Mawrth 2028? Rhowch eich rhesymau a thystiolaeth i gefnogi eich barn.

Y broses ymgynghori

3.46 Rydym yn gwahodd ymatebion i'r cwestiynau a godwyd yn yr ymgynghoriad hwn, sydd wedi'u crynhoi yn Atodiad A6, erbyn 5pm ar 27 Tachwedd 2026. Mae manylion ar sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn Atodiad A3. Rydym yn bwriadu cyhoeddi ein datganiad yn nodi ein penderfyniad terfynol yn y Gwanwyn 2026/27 .

A1. Hysbysiad Statudol

Hysbysiad o gynnig i roi cyfarwyddyd o dan Amod DUSP 3.2.6, yn unol ag adrannau 36 a 53 ac Atodlen 6 i Ddeddf Gwasanaethau Post 2011.

Cefndir

- A. Ar 1 Hydref 2011, trosglwyddodd y cyfrifoldeb dros reoleiddio'r post i Ofcom o dan Ddeddf Gwasanaethau Post 2011 (y "Ddeddf"). Yn ddiweddarach gosododd Ofcom amodau darparwr gwasanaeth cyffredinol dynodedig ("DUSP") ar Royal Mail Group Limited ("Y Post Brenhinol"), fel y darparwr gwasanaeth cyffredinol dynodedig, yn unol ag adrannau 36 a 37 y Ddeddf.
- B. Roedd yr amodau hynny'n cynnwys Amod 2 y DUSP,¹⁰⁶ a oedd yn gosod cap diogelu ar lythyrau Ail Ddosbarth, ac Amod 3 y DUSP,¹⁰⁷ a oedd yn gosod cap diogelu basged ar lythyrau mawr Ail Ddosbarth a pharseli hyd at 2kg.
- C. Ar 24 Ionawr 2024, cyhoeddodd Ofcom ddatganiad o'r enw *Adolygiad o gapiau diogelu Ail Ddosbarth 2024* yn nodi ei benderfyniadau i ddirymu Amod 2 y DUSP ac addasu Amod 3 y DUSP.
- D. Yn y datganiad hwnnw, penderfynodd Ofcom:
 - (a) cyflwyno un cap diogelu basged ar lythyrau safonol a llythyrau mawr Ail Ddosbarth, gan ddileu'r cap diogelu ar gyfer parseli (DUSP 3.2.1);
 - (b) gosod y cap am gyfnod o dair blynedd gan ddechrau ar 1 Ebrill 2024 (DUSP 3.2.2); a
 - (c) gosod gofyniad ar y Post Brenhinol i gydymffurfio â chyfarwyddiadau a roddir gan Ofcom o dan Amod 3 y DUSP, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) gyfarwyddyd ynghylch y prisiau y caniateir i'r Post Brenhinol eu codi am y gwasanaethau yn y fasged mewn unrhyw gyfnod ar ôl i drydedd flwyddyn y cap ddod i ben (DUSP 3.2.6).¹⁰⁸

Y Cynnig

1. Yn unol ag adrannau 36 a 53 ac Atodlen 6 o'r Ddeddf, mae Ofcom yn cynnig rhoi cyfarwyddyd o dan Amod 3.2.6 y DUSP, gan barhau â'r cap diogelu presennol ar lythyrau safonol a llythyrau mawr Ail Ddosbarth ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2027 a 31 Mawrth 2028.
2. Nodir y cyfeiriad arfaethedig yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.
3. Mae effaith y cynnig hwn, a rhesymau Ofcom dros ei wneud, wedi'u nodi yn y ddogfen ymgynghori gysylltiedig. I grynhoi, rydym o'r farn y byddai ein cynnig i gynnal y cap diogelu presennol am flwyddyn ychwanegol yn gwarchod mesurau diogelu fforddiadwyedd i

¹⁰⁶ Gweler Atodlen 2 i'r hysbysiad statudol a gyhoeddwyd yn Ofcom, Mawrth 2012. Datganiad: Sicrhau'r Gwasanaeth Post Cyffredinol, Atodiad 7.

¹⁰⁷ Gweler Atodlen 1 i'r hysbysiad statudol a gyhoeddwyd yn Ofcom, Gorffennaf 2012. Datganiad: Sicrhau'r Gwasanaeth Post Cyffredinol: Diogelu'r cap ar gyfer llythyrau mawr a pheccynau, Atodiad 1.

¹⁰⁸ Gweler yr Atodlen i'r hysbysiad statudol a gyhoeddwyd yn Ofcom, Ionawr 2024. [Datganiad: Adolygiad o gapiau diogelu Ail Ddosbarth 2024](#), Atodiad 1.

ddefnyddwyr ar yr un pryd â chaniatáu amser i dystiolaeth ddod i'r amlwg a fyddai'n galluogi Ofcom i benderfynu ar ei ddull tymor hwy o brisio.

DYLETSWYDDAU OFCOM A PHROFION CYFREITHIOL

4. Mae Ofcom yn fodlon bod y cynnig hwn yn bodloni'r prawf ym mharagraff 4(2) o Atodlen 6 i'r Ddeddf, gan ystyried pŵer Ofcom o dan adran 36(4) o'r Ddeddf.
5. Wrth wneud y cynnig hwn, mae Ofcom wedi ystyried a gweithredu yn unol â'i ddyletswyddau yn y Ddeddf a'i ddyletswyddau cyffredinol yn adran 3 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.
6. Anfonwyd copïau o'r Hysbysiad hwn a'r ddogfen ymgynghori gysylltiedig at yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â pharagraff 5(1)(a) o Atodlen 6 i'r Ddeddf.

GWNEUD SYLWADAU

7. Gellir cyflwyno sylwadau i Ofcom am y cynnig a nodir yn yr Hysbysiad hwn erbyn 27 Tachwedd fan bellaf.
8. Bydd yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn yn rhan o'r Hysbysiad hwn.

Llofnodwyd gan



Fergal Farragher

Cyfarwyddwr Polisi

Unigolyn a awdurdodwyd yn briodol gan Ofcom o dan baragraff 18 yr Atodlen i Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002

Atodlen

Cyfarwyddyd [Drafft] a roddir o dan Amod 3.2.6 y DUSP ynghych prisiau

Mae Ofcom, drwy hyn, yn cyfarwyddo'r darparwr gwasanaeth cyffredinol fel a ganlyn

Dehongliad

1. Yn y Cyfarwyddyd hwn –
 - a) Mae "Amod 3 y DUSP" yn golygu Amod 3 yr USP Dynodedig fel y nodir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad dirymu Amod 2 yr USP Dynodedig ac addasu Amod 3 yr USP Dynodedig dyddiedig 24 Ionawr 2024;¹⁰⁹
 - b) Mae "Blwyddyn Ychwanegol" yn golygu'r cyfnod o 12 mis yn olynol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2027 ac yn dod i ben ar 31 Mawrth 2028.
2. At ddibenion dehongli'r Cyfarwyddyd hwn –
 - a) ac eithrio i'r graddau y mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall, bydd gan eiriau neu ymadroddion yr ystyr a roddir iddynt ym mharagraff 1 uchod ac fel arall bydd i unrhyw air neu ymadrodd yr un ystyr ag a briodolir iddo at ddibenion Amod 3 y DUSP;
 - b) caiff penawdau a theitlau eu diystyru;
 - c) dehonglir ymadroddion cytras â'r rhai y cyfeirir atynt yn y Cyfarwyddyd hwn yn unol â hynny; a
 - d) bydd Deddf Dehongli 1978 (c.30) yn gymwys fel pe bai'r Atodlen hon yn Ddeddf Seneddol.

Uchafswm pris i'w godi am wasanaethau penodol

3. Mae'r Cyfarwyddyd hwn yn ymwneud â'r prisiau uchaf y caniateir i'r darparwr gwasanaeth cyffredinol eu codi am y gwasanaethau yn y Fasged yn y Flwyddyn Ychwanegol.
4. Yn y Flwyddyn Ychwanegol gosodir pris y gwasanaethau yn y Fasged drwy gymhwyso'r fformiwlâu a gynhwysir yn DUSP Amod 3.2.2, gyda'r Flwyddyn Ychwanegol yn cael ei thrin fel Blwyddyn Berthnasol arall.

Cychwyn

5. Daw'r Cyfarwyddyd hwn i rym ar 1 Ebrill 2027.

¹⁰⁹ Ofcom, 2024 [Datganiad: Adolygiad o gapiau diogelu Ail Ddosbarth 2024](#), Atodiad 1.

A2. Fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol

A2.1 Mae'r Atodiad hwn yn amlinellu:

- Dyletswyddau statudol Ofcom mewn perthynas â gwasanaethau post;
- Rhwymedigaethau'r Post Brenhinol fel y darparwr gwasanaeth cyffredinol dynodedig;
- pwerau Ofcom mewn perthynas ag amodau rheoleiddio; a
- dyletswyddau statudol perthnasol eraill Ofcom.

Dyletswyddau statudol Ofcom mewn perthynas â gwasanaethau post

A2.2 Mae dyletswyddau perthnasol Ofcom wedi'u nodi yn Neddf Cyfathrebiadau 2003 a Deddf Gwasanaethau Post 2011.

Dyletswyddau Deddf Cyfathrebiadau 2003

A2.3 Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn nodi dyletswyddau cyffredinol Ofcom sy'n berthnasol ar draws ein holl swyddogaethau. Ein prif ddyletswydd yw hybu buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau, a buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hybu cystadleuaeth lle y bo hynny'n briodol.¹¹⁰

A2.4 Mae nifer o ffactorau y mae'n rhaid i ni eu hystyried wrth gyflawni'r dyletswyddau hynny.

A2.5 Rhaid i ni, ym mhob achos, ystyried yr egwyddorion sy'n datgan y dylai gweithgareddau rheoleiddio fod yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu dim ond at achosion lle mae angen cymryd camau; ac unrhyw egwyddorion eraill sy'n ymddangos i ni fel rhai sy'n cynrychioli'r ymarfer rheoleiddio gorau.¹¹¹

A2.6 Pan fydd yn ymddangos i ni eu bod yn berthnasol yn yr amgylchiadau, rhaid i ni hefyd ystyried y canlynol:

- a) pa mor ddymunol yw hybu cystadleuaeth mewn marchnadoedd perthnasol;
- b) pa mor ddymunol yw annog buddsoddi ar arloesi mewn marchnadoedd perthnasol;
- c) anghenion pobl anabl, yr henoed a'r rheini sydd ar incwm isel;
- d) barn defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol a'r cyhoedd yn gyffredinol;
- e) gwahanol fuddiannau pobl mewn gwahanol rannau o'r DU, y gwahanol gymunedau ethnig yn y DU, a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol;
- f) i ba raddau, yn amgylchiadau'r achos, y mae hyrwyddo neu ddiogelu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr yn rhesymol ymarferol.¹¹²

A2.7 Wrth gyflawni ein dyletswydd i hyrwyddo buddiannau defnyddwyr, mae'n rhaid i ni ystyried, yn benodol, fuddiannau'r defnyddwyr hynny o ran dewis, pris, ansawdd gwasanaeth a gwerth am arian.¹¹³

¹¹⁰ Adran 3(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

¹¹¹ Adran 3(3) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

¹¹² Adran 3(4) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

¹¹³ Adran 3(5) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

- A2.8 Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu bod Ofcom yn adolygu ein gwaith rheoleiddio gyda'r bwriad o sicrhau nad yw'n cynnwys gosod na chynnal beichiau sy'n ddiangen neu sydd wedi dod yn ddiangen.¹¹⁴
- A2.9 Rhaid i Ofcom hefyd ystyried Datganiad Blaenoriaethau Strategol y Llywodraeth.¹¹⁵ Blaenoriaeth polisi post y llywodraeth yw darparu gwasanaeth post cyffredinol sy'n diwallu anghenion defnyddwyr ac sy'n fforddiadwy, yn effeithlon ac yn gynaliadwy yn ariannol mewn marchnad bost agored a chystadleuol.¹¹⁶

Dyletswyddau Deddf Gwasanaethau Post 2011

- A2.10 Mae Deddf Gwasanaethau Post 2011 yn nodi'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau post. Mae Adran 29 o'r Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn gweithredu ein swyddogaethau o ran y gwasanaethau post mewn ffordd a fydd, yn ein barn ni, yn sicrhau y darperir gwasanaeth post cyffredinol.¹¹⁷
- A2.11 Er nad yw "darparu gwasanaeth post cyffredinol" wedi'i ddiffinio yn Deddf Gwasanaethau Post 2011, rhaid darllen y cymal hwn yn unol ag adrannau 30 i 33.¹¹⁸ Mae'r adrannau hyn yn nodi'r gofynion sylfaenol ar gyfer gwasanaeth post cyffredinol ac yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom bennu, drwy orchymyn, y gwasanaethau y mae'n rhaid eu darparu fel rhan o'r gwasanaeth cyffredinol, a'r safonau y mae'n rhaid i'r gwasanaethau hynny eu cyrraedd.
- A2.12 Wrth gyflawni ein dyletswydd o dan Ddeddf Gwasanaethau Post 2011, mae'n rhaid i ni ystyried yr angen i'r gwasanaeth post cyffredinol fod yn gynaliadwy yn ariannol ac yn effeithlon cyn diwedd cyfnod rhesymol¹¹⁹ a pharhau i fod yn effeithlon ar bob adeg ddilynol.¹²⁰ Mae'r angen i fod yn gynaliadwy yn ariannol yn cynnwys yr angen am gyfradd enillion masnachol rhesymol i unrhyw ddarparwr gwasanaeth cyffredinol ar unrhyw wariant a wynebir ganddo at ddibenion darparu gwasanaeth post cyffredinol, neu mewn cysylltiad â hynny.¹²¹
- A2.13 Nid yw Deddf Gwasanaethau Post 2011 yn mynnu ein bod yn rhoi mwy o bwyslais ar gynaliadwyedd ariannol nac effeithlonrwydd. Rhaid i ni ystyried y ddau wrth ddod i benderfyniad ynghylch y ffordd orau o gyflawni ein swyddogaethau.
- A2.14 Pan fydd yn ymddangos i ni, wrth gyflawni ein swyddogaethau post, bod unrhyw un o'n dyletswyddau cyffredinol o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn gwrthdaro â'n dyletswydd i sicrhau bod gwasanaeth post cyffredinol yn cael ei ddarparu, rhaid rhoi blaenoriaeth i'n dyletswydd i sicrhau gwasanaeth post cyffredinol.¹²²

¹¹⁴ Adran 6 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

¹¹⁵ Adran 2B o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

¹¹⁶ [Datganiad Blaenoriaethau Strategol ar gyfer telegyfathrebiadau, rheoli sbectrwm radio, a gwasanaethau post](#)

¹¹⁷ Adran 29(1) o Ddeddf Gwasanaethau Post 2011.

¹¹⁸ Adran 65(2)(a) o Ddeddf Gwasanaethau Post 2011.

¹¹⁹ Diffinnir "cyfnod rhesymol" yn adran 29(5) o Ddeddf Gwasanaethau Post 2011 fel cyfnod sy'n dechrau ar y diwrnod y daw darpariaethau perthnasol y ddeddf honno i rym yn gyffredinol, y mae Ofcom o'r farn, o dan yr holl amgylchiadau, ei fod yn rhesymol.

¹²⁰ Adran 29(3) o Ddeddf Gwasanaethau Post 2011.

¹²¹ Adran 29(4) o Ddeddf Gwasanaethau Post 2011.

¹²² Adran 3(6A) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

Y gwasanaeth post cyffredinol

- A2.15 Pennir manyleb y gwasanaeth post cyffredinol gan gyfuniad o ddeddfwriaeth a rheoliadau.
- a) mae'r gofynion sylfaenol yn cael eu pennu gan y Senedd yn adran 31 o Ddeddf Gwasanaethau Post 2011;
 - b) mae'r cwmplas manwl yn cael ei bennu gan Ofcom¹²³ yng Ngorchymyn Gwasanaethau Post (Gwasanaeth Post Cyffredinol) 2012 (y Gorchymyn);¹²⁴
 - c) mae amodau rheoleiddio yn cael eu gosod gan Ofcom ar y darparwr gwasanaeth cyffredinol dynodedig, Royal Mail Group Limited (Y Post Brenhinol), i roi'r deddfwriaeth uchod ar waith.

Y gofynion sylfaenol

- A2.16 Mae Adran 31 o Ddeddf Gwasanaethau Post 2011 yn nodi'r gwasanaethau y mae'n rhaid eu cynnwys, o leiaf, mewn gwasanaeth post cyffredinol:
- d) Danfon llythyrau o leiaf unwaith bob dydd Llun i ddydd Sadwrn a phecynnau post eraill bob dydd Llun i ddydd Gwener i gartref neu eiddo pob unigolyn neu berson arall yn y DU neu i bwyntiau adnabyddadwy o'r fath fel y'u cymeradwywyd gan Ofcom;
 - e) Casgliadau llythyrau o leiaf unwaith bob dydd Llun i ddydd Sadwrn a phecynnau post eraill bob dydd Llun i ddydd Gwener er mwyn eu trosglwyddo ymlaen mewn cysylltiad â darparu'r gwasanaeth cyffredinol;
 - f) Gwasanaeth cludo pecynnau post o un lle i'r llall drwy'r post am brisiau fforddiadwy a bennir yn unol â thariff cyhoeddus sy'n unffurf ledled y DU;
 - g) Gwasanaeth eitemau cofrestredig a gwasanaeth eitemau wedi'u hyswirio am brisiau fforddiadwy a bennir yn unol â thariff cyhoeddus sy'n unffurf ledled y DU;
 - h) Darparu'n ddi-dâl y gwasanaethau post hynny a bennir yn y gorchymyn gwasanaeth post cyffredinol i'r disgrifiadau hynny o bobl ddall neu rannol ddall a bennir;
 - i) Gwasanaeth cyfleu deisebau a chyfarchion deddfwriaethol cymwys yn rhad ac am ddim.

Gorchymyn Gwasanaeth Post Cyffredinol 2012

- A2.17 Mae'n rhaid i orchymyn gwasanaeth post cyffredinol gynnwys pob un o'r gwasanaethau a restrir yn y gofynion sylfaenol, a gall osod gwasanaethau ychwanegol. Er enghraifft, mae'r Gorchymyn a wneir gan Ofcom yn mynnu dau ddosbarth o wasanaethau un eitem – blaenoriaeth a safonol – ond dim ond un yw'r gofyniad sylfaenol.
- A2.18 Mae paragraffau 6 a 7 o'r Gorchymyn yn mynnu bod llythyrau Dosbarth Cyntaf yn cael eu danfon a'u casglu chwe diwrnod yr wythnos o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, a bod llythyrau Ail Ddosbarth yn cael eu danfon a'u casglu o ddydd Llun i ddydd Gwener.
- A2.19 Mae paragraff 8(a) y Gorchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaethau a restrir yn Atodlen 1 (sy'n cwmplas gwasanaethau Dosbarth Cyntaf, Ail Ddosbarth, cofrestredig, yswiriedig, dychwelyd i'r anfonwr, a rhyngwladol) gael eu darparu am brisiau fforddiadwy a bennir yn unol â thariff cyhoeddus sy'n unffurf ledled y DU.

Amodau darparwr gwasanaeth cyffredinol dynodedig (DUSP)

- A2.20 Er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth post cyffredinol yn cael ei ddarparu, mae adran 36 o Ddeddf Gwasanaethau Post 2011 yn grymuso Ofcom i osod amodau DUSP ar y Post

¹²³ Yn unol ag adran 30 o Ddeddf Gwasanaethau Post 2011.

¹²⁴ Ofcom, [Y Gorchymyn gwasanaeth post cyffredinol](#)

Brenhinol. Mae'r adrannau hyn yn mynnu bod Ofcom, drwy orchymyn, yn nodi'r gwasanaethau y mae'n rhaid eu darparu fel rhan o'r gwasanaeth cyffredinol. Gallant gynnwys rheolau ynghylch prisiau a thargedau perfformiad.

A2.21 Rydym wedi gosod dau amod DUSP ar y Post Brenhinol:

- j) Amod 1 y DUSP sy'n cynnwys (ymhlith pethau eraill): ¹²⁵
 - i) Rhwymedigaethau'r Post Brenhinol i ddarparu'r gwasanaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn;
 - ii) Gofyniad, sy'n adlewyrchu paragraff 8(a) y Gorchymyn, i'r gwasanaethau a restrir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn gael eu darparu am brisiau fforddiadwy a bennir yn unol â thariff cyhoeddus sy'n unffurf ledled y DU;
 - iii) Targedau ansawdd gwasanaeth ar gyfer rhai o'r gwasanaethau hynny.
- k) Amod 3 y DUSP sy'n gosod cap diogelu ar bris llythyrau Ail Ddosbarth. ¹²⁶

Gosod amodau DUSP a rhoi cyfarwyddiadau

- A2.22 Gall Ofcom osod amod DUSP (gan gynnwys amod o'r fath wedi'i addasu) dim ond os yw'n ystyried ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny er mwyn sicrhau bod gwasanaeth a nodir yn y Gorchymyn yn cael ei ddarparu yn unol â'r safonau a nodir yno. ¹²⁷
- A2.23 Wrth ddarparu ar gyfer y tariffau i'w defnyddio i bennu prisiau gwasanaeth post cyffredinol (neu ran o wasanaeth cyffredinol), mae'n rhaid i Ofcom geisio sicrhau bod y prisiau:
- l) yn fforddiadwy,
 - m) yn ystyried costau darparu'r gwasanaeth neu ran o wasanaeth, ac
 - n) yn darparu cymhellion i ddarparu'r gwasanaeth neu ran o wasanaeth yn effeithlon. ¹²⁸
- A2.24 Mae pŵer Ofcom i osod amod yn cynnwys y pŵer i osod gofyniad i gydymffurfio â chyfarwyddiadau a roddir gan Ofcom, neu gan rywun arall a bennir yn yr amod, mewn perthynas â'r materion y mae'r amod yn ymwneud â nhw. ¹²⁹
- A2.25 Os yw amod yn cael effaith drwy gyfeirio at gyfarwyddiadau a roddir gan Ofcom a'n bod yn cynnig rhoi cyfarwyddyd sy'n effeithio ar weithredu'r amod, mae'n rhaid i ni fod yn fodlon bod gwneud hynny (a) yn gallu cael ei gyfiawnhau'n wrthrychol, (b) nid yw'n gwahaniaethu'n ormodol yn erbyn unigolion penodol neu ddisgrifiad penodol o unigolion, ac (c) ei fod yn gymesur ac yn dryloyw o ran yr hyn y bwriedir iddo ei gyflawni. ¹³⁰
- A2.26 Mae'r weithdrefn ar gyfer rhoi cyfarwyddyd wedi'i nodi ym mharagraff 4 o Atodlen 6 i Ddeddf Gwasanaethau Post 2011:
- a) Cyn rhoi cyfarwyddyd, mae'n rhaid i ni gyhoeddi hysbysiad sy'n i) datgan ein cynnig; ii) nodi effaith ein cynnig; iii) rhoi ein rhesymau dros y cynnig; ac iv) pennu'r cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau am y cynnig (sy'n gorfod bod yn fis o leiaf gan ddechrau ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y cyhoeddir yr hysbysiad oni bai fod amgylchiadau eithriadol sy'n cyfiawnhau cyfnod byrrach).

¹²⁵ Ofcom [Amod 1 y DUSP](#)

¹²⁶ Ofcom, [Amod 3 y DUSP](#)

¹²⁷ Adran 36(3) o Ddeddf Gwasanaethau Post 2011.

¹²⁸ Adran 36(5) o Ddeddf Gwasanaethau Post 2011.

¹²⁹ Paragraff 2 o Atodlen 6 y Ddeddf Gwasanaethau Post 2011.

¹³⁰ Paragraff 4 o Atodlen 6 y Ddeddf Gwasanaethau Post 2011.

- b) Dim ond pan fyddwn wedi gwneud y canlynol y gallwn roi cynnig ar waith: (i) ystyried pob sylw a wnaed i Ofcom; a (ii) ystyried pob rhwymedigaeth ryngwladol ar y DU yr hysbyswyd Ofcom ohonynt gan yr Ysgrifennydd Gwladol.
- c) Rhaid i ni gyhoeddi'r hysbysiad mewn modd sy'n briodol ar gyfer dwyn yr hysbysiad i sylw'r unigolion sy'n briodol yn ein tyb ni.

A2.27 Mae Amod 3 y DUSP yn rhoi pwerau i Ofcom wneud cyfarwyddiadau ynghylch ei ddefnyddio. Yn benodol, mae Amod 3.2.6 y DUSP yn nodi bod yn rhaid i'r Post Brenhinol gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd y gall Ofcom ei wneud o dan yr amod, gan gynnwys cyfarwyddiadau ynghylch y prisiau y caniateir i'r Post Brenhinol eu codi am wasanaethau sydd o fewn cwmplas y cap diogelu mewn unrhyw gyfnod ar ôl diwedd y Flwyddyn Berthnasol ddiwethaf (1 Ebrill 2026 - 31 Mawrth 2027).

Gorfodi

- A2.28 Mae pwerau Ofcom i gymryd camau gorfodi yn erbyn y Post Brenhinol mewn perthynas â chydymffurfio â'r gofynion rheoleiddio a osodir arno wedi'u nodi yn Atodlen 7 i Ddeddf Gwasanaethau Post 2011.
- A2.29 Os bydd Ofcom yn penderfynu bod sail resymol dros gredu bod y Post Brenhinol yn mynd yn groes i ofyniad rheoleiddio, neu wedi mynd yn groes iddo, gall Ofcom roi hysbysiad i'r Post Brenhinol yn nodi ei benderfyniad ac yn rhoi cyfle i'r Post Brenhinol gyflwyno sylwadau.¹³¹
- A2.30 Caiff Ofcom roi cosb os yw'n fodlon bod y Post Brenhinol wedi mynd yn groes i ofyniad rheoleiddio.¹³² Rhaid i Ofcom fod o'r farn bod swm y gosb yn briodol ac yn gymesur â'r tramgwydd. Ni ddylai fod yn fwy na 10% o drosiant busnes gwasanaethau post y Post Brenhinol ar gyfer y cyfnod dan sylw.¹³³

Dyletswyddau eraill Ofcom

Dyletswydd twf economaidd

- A2.31 Mae Deddf Dadreoleiddio 2015 yn nodi dyletswydd Ofcom i ystyried pa mor ddymunol yw hyrwyddo twf economaidd wrth arfer ei swyddogaethau rheoleiddio.¹³⁴ Er mwyn ystyried hyrwyddo twf economaidd, bydd Ofcom yn arfer ei swyddogaethau rheoleiddio mewn ffordd sy'n sicrhau bod camau rheoleiddio'n cael eu cymryd dim ond pan fydd eu hangen, a bod unrhyw gamau a gymerir yn gymesur.
- A2.32 Mae canllawiau statudol y llywodraeth ar y ddyletswydd hon¹³⁵ yn darparu y dylai rheoleiddwyr ystyried twf tymor canolig a thymor hir drwy sicrhau bod penderfyniadau polisi allweddol a dewisiadau strategol yn cael eu llywio gan ystyriaeth o ysgogwyr allweddol twf economaidd. Mae'r ysgogwyr sy'n berthnasol i'r diwydiant post yn ein barn ni yn cynnwys arloesi, cystadleuaeth, effeithlonrwydd a chynhyrchiant, masnach a chynaliadwydd amgylcheddol. Felly, rydym wedi ystyried y ffactorau hyn wrth lunio'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn.

¹³¹ Adran 54 a pharagraff 2 o Atodlen 7 y Ddeddf Gwasanaethau Post 2011.

¹³² Paragraff 6 o Atodlen 7 y Ddeddf Gwasanaethau Post 2011.

¹³³ Paragraff 7 o Atodlen 7 y Ddeddf Gwasanaethau Post 2011.

¹³⁴ Adran 108 o [Ddeddf Dadreoleiddio 2015 c. 20 \(legislation.gov.uk\)](#).

¹³⁵ Yr Adran Busnes a Masnach, 2024. [Dyletswydd o ran Twf: Canllawiau Statudol](#).

Dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus

- A2.33 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (Deddf 2010)¹³⁶ yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig canlynol: oed; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae Deddf 2010 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw dyladwy i'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a phobl nad ydynt yn rhannu'r nodweddion hynny.
- A2.34 Mae Deddf Gogledd Iwerddon 1998 (Deddf 1998)¹³⁷ yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau sy'n ymwneud â Gogledd Iwerddon, i roi sylw dyledus i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i roi sylw i ba mor ddymunol yw hyrwyddo cysylltiadau da ar draws ystod o gategorïau a amlinellir yn Neddf 1998. Mae Cynllun Cydraddoldeb Diwygiedig Gogledd Iwerddon Ofcom yn egluro sut rydym yn cydymffurfio â'n dyletswyddau statudol o dan Ddeddf 1998.

Dyletswydd y Gymraeg

- A2.35 Fe wnaeth Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sefydlu fframwaith cyfreithiol ar gyfer gosod dyletswyddau ar sefydliadau penodol i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg.¹³⁸ Mae'r safonau a gyhoeddwyd i Ofcom wedi'u rhestru yn hysbysiad cydymffurfio Ofcom a ddaeth i rym ar 25 Ionawr 2017.¹³⁹
- A2.36 Mae Safonau Llundio Polisiâu'r Gymraeg yn mynnu bod Ofcom yn asesu: (a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth lunio polisi newydd neu adolygu neu ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli.

¹³⁶ Adran 149 o [Ddeddf Cydraddoldeb 2010 c. 15 \(legislation.gov.uk\)](#).

¹³⁷ Adran 75 o [Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 c. 47 \(legislation.gov.uk\)](#).

¹³⁸ [Mesur y Gymraeg \(Cymru\) 2011 mccc 1 \(legislation.gov.uk\)](#).

¹³⁹ Comisiynydd y Gymraeg, 2017. [Hysbysiad Cydymffurfio](#).

A3. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Sut i ymateb

- A3.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno'ch barn a'ch sylwadau am y materion a godwyd yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar ddydd Gwener 27 Tachwedd 2026.
- A3.2 Gallwch lawrlwytho ffurflen ymateb yn [yma](#). Cewch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.
- A3.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata ategol arall, a fydddech chi cystal â'i anfon dros e-bost i futurepostaluso@ofcom.org.uk fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno.
- A3.4 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill heblaw mewn print, er enghraifft recordiad sain neu fideo iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio iaith Arwyddion Prydain:
- > anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai bara mwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau DVD, wmv neu QuickTime; neu
 - > gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb, a'i uwchlwytho yn syth ar YouTube (neu wefan letya arall), ac anfon y ddolen atom ni.
- A3.5 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn ni (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol).
- A3.6 Nid oes angen i ni gael copi papur o'ch ymateb yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn ymateb a gyflwynir i ni dros e-bost.
- A3.7 Nid oes rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydym ni hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.
- A3.8 Byddai'n ddefnyddiol pe bai eich ymateb yn cynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiynau wedi cael eu rhestru yn Atodiad A6. Byddai'n ddefnyddiol hefyd petai'n bosibl i chi egluro pam rydych yn arddel eich safbwyntiau, a beth rydych chi'n ei gredu fyddai effaith cynigion Ofcom.
- A3.9 Os hoffech chi drafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â futurepostaluso@ofcom.org.uk.

Cyfrinachedd

- A3.10 Mae ymgynghoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Gall hyn helpu pobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu sydd ddim yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi ymatebion ar wefan Ofcom yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben.
- A3.11 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, nodwch i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar

wahân. Os ydych chi am i'ch enw, cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhwch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid i ni olygu eich ymateb.

- A3.12 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono'n gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifri ac yn ceisio ei barchu. Fodd bynnag, mater i Ofcom yw penderfynu a yw gwybodaeth yn gyfrinachol ai peidio. Weithiau, mae'n bosibl y byddwn yn credu bod angen cyhoeddi ymateb cyfan neu ran ohono, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n gyfrinachol (er enghraifft, er mwyn i ni allu egluro ein penderfyniadau a bod pobl yn gallu deall ein rhesymeg neu er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol).
- A3.13 Pan fydd hyn yn digwydd (ac nad yw'r wybodaeth berthnasol eisoes ar gael i'r cyhoedd), byddwn fel arfer yn egluro ein bwriad i gyhoeddi gwybodaeth o'ch ymateb yn gyntaf ac yn rhoi cyfle i chi godi pryderon ynghylch cyhoeddi'r wybodaeth honno. Yn gyffredinol, byddwn yn gwneud ein gorau i ddatrys unrhyw wrthwynebiadau sydd gennych drwy ddeialog adeiladol. Os byddwn yn dal yn credu bod angen i ni gyhoeddi eich ymateb cyfan neu ran ohono a'ch bod yn parhau i wrthwynebu hynny, byddwn yn rhoi rhybudd ymlaen llaw i chi cyn ei gyhoeddi.
- A3.14 Er mwyn cyflawni ein dyletswydd datgelu ymlaen llaw, efallai y byddwn yn rhannu copi o'ch ymateb â'r adran berthnasol yn y llywodraeth cyn i ni ei gyhoeddi ar ein gwefan.
- A3.15 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom eu defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein Telerau Defnyddio.

Y camau nesaf

- A3.16 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad yn ystod Ch4 2026/27.
- A3.17 Gallwch gofrestru i gael diweddariadau drwy'r post yn rhoi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom os ydych yn dymuno hynny.

Prosesau ymgynghori Ofcom

- A3.18 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad A4.
- A3.19 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y ffordd rydym yn rheoli ein hymgyngoriadau, anfonwch neges e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym ni'n arbennig o awyddus i glywed syniadau ynghylch sut gallai Ofcom ofyn yn fwy effeithiol am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.
- A3.20 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn fwy cyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

Corporation Secretary
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA
E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

A4. Egwyddorion ymgynghori Ofcom

A4.1 Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

Cyn yr ymgynghoriad

A4.2 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgysiau anffurfiol gyda phobl a sefydliadau cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr, i gael gwybod a ydym ar y trywydd iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

Yn ystod yr ymgynghoriad

- A4.3 Byddwn yn dweud yn glir gyda phwy rydym yn ymgynghori, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.
- A4.4 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd, gyda throsolwg o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni.
- A4.5 Wrth bennu hyd y cyfnod ymgynghori, byddwn yn ystyried natur ein cynigion a'u heffaith bosibl. Byddwn bob amser yn nodi'n glir y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion.
- A4.6 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd â diddordeb o bosibl yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif bwynt cyswllt os oes gennych chi farn am y ffordd rydym yn cynnal ein hymgyngoriadau.
- A4.7 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r egwyddorion hyn, byddwn yn egluro pam.

Ar ôl yr ymgynghoriad

A4.8 Credwn ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion ar ein gwefan yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau ymatebwyr wedi helpu i lywio'r penderfyniadau hyn.

A5. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

Manylion sylfaenol

Teitl yr ymgynghoriad:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad/au):

Cyfeiriad (os na ddaeth i law drwy e-bost):

Cyfrinachedd

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych chi'n ei hystyried yn gyfrinachol, a rhwch eich rhesymau dros hynny

- > Dim ☐
- > Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐
- > Ymateb cyfan ☐
- > Sefydliad ☐
- > Rhan o'r ymateb ☐

Os ydych chi wedi dewis 'Rhan o'r ymateb', nodwch pa rannau:

Os ydych chi am i ran o'ch ymateb, eich enw neu eich sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, ydych chi'n fodlon i Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodedd cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol nac yn datgelu pwy ydych chi)?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

Datganiad

Rwy'n cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth ddarparu'r ymateb hwn, rwy'n deall ei bod yn bosibl y bydd angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u nodi'n gyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os ydw i wedi anfon fy ymateb drwy e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynglŷn â pheidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Os yw eich ymateb yn un nad yw'n gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), a byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi eich ymateb nes bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw

Llofnod (os darperir copi caled)

A6. Cwestiynau'r ymgynghoriad

Dywedwch wrthym sut y daethoch ar draws yr ymgynghoriad hwn.

- ☐ E-bost gan Ofcom
- ☐ Wedi'i weld ar y cyfryngau cymdeithasol
- ☐ Wedi dod o hyd iddo ar wefan Ofcom
- ☐ Wedi dod o hyd iddo ar wefan arall
- ☐ Wedi clywed amdano ar y teledu neu'r radio
- ☐ Wedi darllen amdano mewn papur newydd neu gylchgrawn
- ☐ Wedi clywed amdano mewn digwyddiad
- ☐ Rhywun wedi dweud wrthyf amdano neu wedi'i rannu â mi
- ☐ Arall (rhowch fanylion)

Cwestiwn 2.1

Ydych chi'n cytuno â'r casgliadau dros dro a nodir yn ein Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb? Rhowch eich rhesymau a thystiolaeth i gefnogi'ch safbwyntiau.

Cwestiwn 2.2

Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o dan Safonau'r Gymraeg? Rhowch eich rhesymau a thystiolaeth i gefnogi'ch safbwyntiau.

Cwestiwn 3.1

A ydych yn cytuno â'n cynnig i barhau â'r cap pris diogelu presennol ar lythyrau Ail Ddosbarth am flwyddyn ychwanegol, tan 31 Mawrth 2028? Rhowch eich rhesymau a thystiolaeth i gefnogi eich barn?